


Llais Ogwan

Ebrill 2013

Rhif 432

50c

“Y Nesaf Peth at Hedfan !!”



Mae'r weiran wib hiraf yn Ewrop yn awr ar agor yn Chwarel y Penrhyn, er gwaethaf mymryn o oedi oherwydd y tywydd.

**DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG
2013**

" Mae Pawb yn Cyfri' "

Traddodir y ddarlith gan

Yr Athro Gareth Ff. Roberts
yn Llyfrgell Bethesda

Nos Lun, 17 Mehefin, 2013
am 7.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb

Mynediad am Ddim

Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd


Mae dwy wifren ar y safle, y gyntaf yn eich cario o ben domen i waelod y chwarel, lle mae hen gerbyd milwrol yn eich cario drwy olygfeydd gogoneddus i ben y ponciau. Yno, mae gwifren arall, filltir o hyd yn eich gwibio yn ôl i'r man cychwyn ar gyflymder o dros 100 milltir yr awr, 500 troedfedd uwchben twll y chwarel.

Cynhelir agoriad swddogol yn fuan a bydd adroddiad llawn yn y Llais y mis nesaf.

Taith Fws

i weld mannau diddorol yn Nyffryn Ogwen
gan gynnwys cartrefi rhai o

Enwogion Llên yr Ardal



Cychwyn yn brydlon am
2.00 o'r gloch

Bnawn Sadwrn, 4 Mai, 2013
oddi wrth Siop Spar, Bethesda.
Cyfle i brynu copi o

Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen

I sicrhau lle, anonwch £3.00 ar unwaith - y
cyntaf i'r felin piau hi - at Dr J. Elwyn
Hughes, Bryn Ogwen, Bethel, Caernarfon
LL55 3AA

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

- Derfel Roberts**
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn**
cylch@tiscali.co.uk
- Lowri Roberts**
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn**
dewision@btinternet.com
- Fiona Cadwaladr Owen**
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk
- Siân Esmor Rees**
sian_esmor@btinternet.com
- Neville Hughes**
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**
dewimorgan@fsmail.net
- Trystan Pritchard**
trystanrp1@gmail.com
- Walter W Williams**
waltermenai@yahoo.co.uk

- SWYDDOGION**
Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net
- Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.com
- Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Dewi Llewelyn Siôn

Golygydd mis Mai fydd Trystan Pritchard, 27 Allt Penbryn, Bethesda, LL57 3BD. 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 1 Mai os gwelwch yn dda. Plygu nos iau, 16 Mai, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Ebrill

- 20 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 21 Cyngerdd Corau Ysgol Glanaethwy at
Apêl Eleanor. Capel Jerusalem Bethesda
am 7.00
- 25 Merched y Wawr Bethesda.
Noson o Gystadlu. Cefnfaes am 7.00
- 27 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol Pentir.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 30 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00

Mis Mai

- 01 Sefydliad y Merched Carneddi.
Cefnfaes am 7.00
- 04 Bore Coffi Cymorth Cristnogol.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 04 Taith Fws Drwy Ddyffryn Ogwen.
Arweinydd – Dr. J. Elwyn Hughes.
Siop Spar am 2.00
- 06 Merched y Wawr Tregarth.
“Y Clio – Llong yr Hogia Drwg”.
Festri Shiloh am 7.00
- 11 Marchnad Ogwen. Llys Dafydd. 10 – 2.00
- 11 Bore Coffi RNLI.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 17 Noson yng Nghwmni Tammy Jones.
Clwb Criced a Bowlio Bethesda am 7.30.
- 18 Bore Coffi Caban y Gerlan.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 19 Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Bangor a
Bethesda. Carmel Llanllechid 10.30 a
5.30.
- 24 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
- 25 Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc. Fferm
Coed Hywel, Glasinfryn.
- 25 Bore Coffi Gorffwysfan.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 30 Merched y Wawr Bethesda. Taith Ddirgel.

Mis Mehefin

- 08 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

**Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan**

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Llais Ogwan yn Chwilio am Ddeunydd Diddorol

Mae rhai wedi sôn yn ddiweddar y dylid cyhoeddi mwy o erthyglau yn y Llais. Felly, rydym yn chwilio am bobl frwdfrydig a fyddai'n fodlon ysgrifennu erthygl yn rheolaidd – unwaith y mis, bob yn ail fis, neu bob chwarter. Felly, beth amdanoch chi?

Dyma rai o'r syniadau sydd gennym ond efallai bod gennych chi syniadau eraill: Cornel y Plant, Garddio, Amaethyddiaeth, Colofn Grefyddol (fel Munud i Feddwl), Ryseitiau Bwyd, Cyfrifiaduron, Ffasiwn, Harddwch, Cerddoriaeth o bob math.

Dywedwyd hefyd nad oes digon o adroddiadau am chwaraeon a diddordebau, a byddem yn croesawu unrhyw gyfraniad.

**Cysyllter â Ieuan Wyn,
Cadeirydd Panel y Golygyddion,
600297 cylch@tiscali.co.uk
neu 85 Ffordd Carneddi.**

Rhoddion i'r Llais

- £10.00 Er cof annwyl am Margaret Jane Tomlinson a fu farw 21 Ebrill 1992. Oddi wrth Raymond a Carol
- £100.00 Cyngor Cymuned Llandygai
- £3.00 I.V.Moore
- £3.00 Hywel Williams, Llanfairpwll
- £5.00 DI-enw, Talybont
- £14.50 Deri a Megan Tomos, Llanllechid

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Ebrill

£30.00 (155) Mrs Bessie Buckley,
32 Maes Ogwen, Tregarth


£20.00 (96) Mrs Carys Williams,
12 Tal y Cae, Tregarth

£10.00 (57) Mr Gwyn Roberts,
Maes yr Hedydd, Tregarth

£5.00 (6) Mr Joseph D. Hughes,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver

Taith 1. Y Felin Fawr a Llyn Coed y Parc

Cychwyn ger Meddygfa'r Hen Orsaf a cherded heibio tai Lôn Sarnau, ffatri G.L.Jones ac i gyfeiriad Pont Sarnau.

Croesi'r bont ac i fyny'r allt gyda'r Hen Felin ar y chwith.

Cyrraedd y lôn gefn ger tai Ffancon View a throï i'r chwith i gyfeiriad Y Felin Fawr.

Croesi'r ffordd ymhen 200 metr ac i fyny drwy hen giat y felin gan ddilyn llwybr beicio Lôn Las Ogwen.

Cerdded rhwng sied y trenau ar y chwith a'r Ffowndri ar y dde ond peidio mynd o dan y bont i gyfeiriad Pont y Tŵr ond yn hytrach mynd drwy ddrws bychan yn y wal sydd yn syth o'ch blaen.


Troi i'r dde ar ôl mynd drwy'r drws ac yna i'r chwith ymhen rhyw 30 metr. Bydd Tai Stablau yn syth o'ch blaen.

Dilynwch y llwybr heibio Llyn Coed Parc gan godi'n raddol i gyfeiriad Parc 'Rynys. Mae peth gwaith wedi ei wneud ar y llwybr yma'n ddiweddar.

Ar ôl cyrraedd llwybr arall ('Rynys-St Ann's) ewch i'r chwith gan ddilyn y llwybr sy'n dilyn afon Caledffrwd (Afon Rocar). Croesi Afon 'Rynys a chyrraedd y Bont Wen ger tŷ Yr Ocar.

Croesi'r bont ac i'r chwith i gyrraedd y lôn yng ngwaelod allt Rocar.

Ewch ymlaen i lawr y ffordd gan basio heibio Llyn Coed Y Parc - fydd ar y chwith i chwi tro hwn.



Cyrraedd gwaith paent (ffatri Bradite) a throï i'r chwith ar y lôn gefn.

Aiff y ffordd a chwi yn ôl i gyfeiriad Stad Ddiwydiannol Coed Y Parc ac at Lwybr Pont Sarnau. Dilyn hwn yn ôl i gyfeiriad Bethesda.

Pellter: Tua 2 filltir
Amser: Oddeutu awr/hamddenol
Offer: Esgidiau cerdded addas gan fod rhannau o'r llwybr yn fwdlyd.
Math o daith: Rhai gelltydd ond dim byd anodd.

Mwynhewch!!

Nyth y Gân

Partneriaeth

Y wawr sydd ar fin torri
A'r gŵr â'i fryd ar godi
Ac yno i lenwi'i gwpwrdd bwyd
Mae ganddo rwyd a milgi.

Mae'r barrug trwm hyd gaeau
A Fflach yn dynn wrth sodlau,
Mor dawel yw y bore bach,
Fe ddaw'r rhai iach o'u tyllau.

Rhyfeddol yw y cyffro
Yn ystod oriau'r deffro,
A thyfu wnaiff yn fwy yn awr,
Bydd sbecian 'nawr a gwrando.

Dau fwriodd eu prentisiaeth
Yn ifanc hyd dir amaeth,
Ac mewn sawl gwrych neu dan ryw wal
Bu'r rhain yn dal ysglyfaeth.

A ddaw rhai heddiw i'r ddalfa,
Neu tybed 'gânt ddihangfa
Ac aros yno i fwynhau
Eu bywyd brau ar borfa?

Boddi Tryweryn

Ein tri arwr Tryweryn a gofiwn
Â gofid mewn deigrin;
O dan arswyd llwyd y llyn
Enciliodd Capel Celyn.

Dafydd Morris

Enwogion Llên Dyffryn Ogwen (o ddarllen y gyfrol)

Ein harwyr yw'n llenorion, – ein ceidwaid
Sy'n cadw'n hen ffynnon;
Cadw iaith yw cadw hon
Yn olau yn y galon.

Y Graig

Mae'n anodd weithiau gwybod sut yn iawn
Fod yn fy nghalon awydd ffoi am byth
Rhag ffwdan byw-bob-dydd i le y cawn
Orffwysu yn anghofrwydd ambell fyth;
Dro arall pan ddaw'r felan i'm tristáu
A gwneud fy nghalon imi'n garreg fedd
A'r meddwl mud fel caead arch yn cau
Amdanaf fel na allaf ffoi o'i gwedd;
Mi wn na lwyddaf ar fy mhen fy hun
Bob tro y daw'r ysictod i'm dwysáu,
Caf lenwi'r gwacter â meddyliau Un
A wŷr y gwynfyd ddaw i lwyr iacháu;
Am hynny, rhag im blymio'n wyllt i'r aig
Mi ymlonyddaf yn ystlysau'r graig.

Goronwy Wyn Owen



O 'Tŷ Ni'

Dyma rysâit am gacen wahanol a gefais o Ben Llŷn. Cacen Weetabix! Gall y ffrwythau sych gynnwys bricyll (apricots) neu geirios wedi eu torri'n fân.

Rhowch 2 Weetabix
225g / 8 owns o siwgr brown tywyll
240 ml / llai na hanner
point o lefrith cyflawn
225g / 8 owns o
ffrwythau sych o'ch
dewis chi i fwydo dros
nos

Ychwanegwch 1 wŷ
225g / 8 owns o flawd
codi wedi ei hidlo
1 llwy de fechan o sbeis
cymysg


Coginio mewn tun torth ar wres o 150c
(2 ar bopty nwy) am tuag 1 awr a 5 munud
Y nesaf peth i ddim o fraserd yn y gacen
yma felly - mwynhewch!

O 'Tŷ Chi'

Mae'n siŵr fod gan nifer ohonoch rywbeth i'w rannu gyda darllenwyr Llais Ogwan. Dyma syniadau - tips garddio, neu lanhau, digwyddiad diddorol, rysâit, jôc, limrig ddigri, hanesyn diddorol, byd natur a.y.b. Cysylltwch â jan@erwlas.freerve.co.uk, neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN - gan gofio rhoi enw a chyfeiriad 'Tŷ Chi'

Gobeithio y cawn i gyd rannu eitemau hwyliog a diddorol.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Bethesda

Liên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐☎ 601902

Llongyfarchiadau
I Meilir a Siân Pritchard ar enedigaeth merch – Anni Glyn. Mae Anni yn wyres i Brian ac Orina Pritchard, Rhos y Nant, ac yn gyfnither fach i Beca a Math, Elidir, Ffordd Penybryn.

Llongyfarchiadau
I Alison Carden, Erw Las ar enedigaeth merch fach i’w mab, Rhys, a’i gymar Delyth Haf , ar 22 Mawrth yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae Cadi Haf Rhys yn ddigon o sioe gyda mop o wallt tywyll.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Elen ac Ishmael Hen Barc ar enedigaeth eu mab bach Currig, brawd bach i Gwilym ac wyr bach newydd i Gwilym ac Ann Williams Ffordd Coedmor. Mae’r terulu i gyd wedi mopio’n lân.

Priodas Arian
Dathlodd Sined a Paul Davies eu Priodas Arian ar 9 Ebrill. Llongyfarchiadau mawr iddynt gan y teulu i gyd.

Ysbyty
Cofion a gwellhad buan at sawl un a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar a hefyd at y rhai sy’n sâl gartref. Yn eu plith mae: Mrs Phyllis Roberts, Adwy’r Nant Mrs Betty Williams, Abercaseg Mr Tudor Roberts, Abercaseg

Pen-blwydd
Dathlodd Mrs Jane Roberts, Glanogwen, ben-blwydd arbennig yn ystod mis Mawrth. Llongyfarchiadau a gobeithio bod yr iechyd yn well y dyddiau hyn.

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad at Vera a Tom Morgan, Glanogwen, yn eu profedigaeth o golli Ron ym Mangor.

Profedigaeth
Yn Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 1af bu farw, yn 70 oed, Mr William Richard Lloyd Williams (Bill) o Minogwen, Ffordd Bangor. Priod annwyl Mrs Gill Lloyd Williams, tad Sara, Charlotte a William, tad yng-nghyfraith Ady a thaid hoffus Harri, Katie, Samuel a Billy. Roedd Bill yn gwasanaethu eglwysi Crist Glanogwen, Y

Diolch



Dymuna Tom a Vera Morgan ddiolch o galon i’r plant am drefnu parti i ddathlu penblwydd Tom yn 80eg oed, ac i weddill or teulu au ffrindiau oll a ymunodd â nhw i wneud ei benblwydd yn un iw gofio.’
Diolch hefyd i Hogia’r Bonc am noson ddifyr.

Santes Ann a’r Santes Fair, Mynydd Llandygai, a St Cedol, Pentir, fel pregethwr a Darllenydd Lleyg. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Llun, 11 Mawrth, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen ac Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Matthews, y Barchedig Jenny Hood, y Barchedig Angela Williams ac Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Andrew John. Wrth yr organ ’roedd Mrs Christine Edwards. Cydymdeimlwn yn fawr â chwi, Gill a’r teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli Bill.

Ar Fawrth 23ain bu farw Mr Herbert Percival Parry (Percy), 43 Erw Las, yn 78 oed. Priod caredig Mrs Vera Parry, tad gofalus Vivien, Amanda a’r diweddar Keith, tad yng-nghyfraith a thaid hoffus i Chris, Laura, Sophie, Hannah, Thomas ac Elin, a brawd Victor, Carol, Leslie a Rosemary. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mawrth, 2 Ebrill, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen ac Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Wynne Roberts a’r Parchedig Elwyn Jones, gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ar fore Sadwrn y Pasg, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Mair Griffiths, 27 Bryn Tirion, ar drothwy ei phen-blwydd yn 93 oed. Priod y diweddar Mr William Griffiths, mam annwyl i Brenda, Ann, Derek a Dilwyn, mam-yng-nghyfraith Sylvia a Derran, a nain, hen nain, a hen-hen nain i’r plant. Derbyniodd ofal arbennig yn ei chartref gan y plant a’r teulu, a bu gofal Ann a Brenda yn ddiflino. ’Roedd yn aelod yng Nghapel Bethania ac yno ’roedd y gwasanaeth fore Mawrth, 9 Ebrill, ac yn dilyn ym mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams, gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Andrew G Lomozik o Fethesda a Hannah C. Dickerson o Gaerfaddon ar achlysur eu dyweddiad. Dymuniadau gorau oddiwrth y ddau deulu.

Gorffwysfan
Gwibdaith i’r Wyddgrug a Brychdyn, dydd Mercher, 24 Ebrill 2013. Cychwyn o Lanffrydlas am 8.15am, yna Adwy’r Nant, Londis, Coetmor, Rachub a Tregarth.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
Bore Coffi – Neuadd Ogwen, Dydd Sadwrn, 10.00 – 12.00 ar 20 Ebrill. Croeso cynnes i bawb.

Diolch
Dymuna Iestyn a Caryl, Rhos Victoria, Stryd Fawr, ddiolch I Glyn ac Ann, *Y Bull*, a Richard a Mary, *King’s Head*, a’u cwsmeriaid, am eu caredigrwydd tuag at Iestyn yn dilyn ei driniaeth yn Ysbytai Whiston a Glan Clwyd yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb!

AR WERTH

Garej Hwylus

yn Stad Coetmor

Os am ei gweld cysylltwch ag Eurwyn neu Janet ar 600855

Pris i’w drafod.

CAPEL BETHANIA

Ebrill
21: Parch. Gwynfor Williams

Mai:
05 Parch. John Owen
12 Cau – Sul Cymorth Cristnogol
19 Cau – Cymanfa Bangor a Bethesda

Oedfaon am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

Codi arian at uned gofal arbennig



Mae rhieni merch fach a aned 16 wythnos yn gynnar ac yn pwyso llai na bag o siwr yn codi arian at elusen sy’n cefnogi uned arbennig i fabanod yn Ysbyty Glan Clwyd.

Roedd Martha Grug Meredydd yn pwyso 1 pwys 7 owns pan anwyd hi’r llynedd. Derbyniodd ofal tyner iawn gan staff arbenigol uned gofal arbennig babanod yn Ysbyty Glan Clwyd am ddau fis a hanner, ac hefyd yn uned arbenigol yn Ysbyty Gwynedd lle bu am fwy na dau fis.

Mae Martha bellach gartref yn Rhos Gordon, Bethesda ac yn dod yn ei blaen yn rhyfeddol ac yn pwyso mwy na stôn! Ond er mwyn diolch i’r staff yng Nglan Clwyd sydd wedi bod yn brwydro dros gadw’r uned arbenigol yn agored dros y misoedd diwethaf, mae teulu Martha wedi cynnal taith gerdded nodeddig o Bwllheli i Abersoch.

Cafwyd diwrnod gwerth chweil ar 13 Ebrill, ond maen nhw’n dal i hel arian. Felly os oes rhywun eisiau cyfrannu at yr achos da, ewch i’r wefan: <http://www.justgiving.com/Martha-Grug> neu cysylltwch gyda Robyn neu Carwyn ar 01248 605209.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Diolch
Hoffai Iestyn, Gardd Eden ddiolch i’r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra bu’n derbyn triniaeth yn Ysbyty Whiston, Lerpwl ac Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddarach. Diolch i Alison a Geraint a chwsmeriad y Royal Oak am eu haelioni. Diolch o galon i bawb.

Mae Helen, gardd Eden hefyd am ddiolch am y cardiau, anrhegion a’r pres a dderbyniodd tra’n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.
Diolch o galon i bawb.

CAPEL CARMEL

Gwasanaethau

Ebrill
21 Parch/Ddr D.W.William 2.00
28 Gweinidog 2.00 a 5.00

Mai
05 Mrs Mererid Mair Williams 5.00
12 Gweinidog 5.00
19 Y Gymanfa Ysgolion –10.30
Cymanfa Ganu – 5.30

Yr Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo prysur, nos Wener 6.30.

Croeso Cynnes i Bawb

Carmel Llanllechid

Te Bach

Pnawn Llun
29 Ebrill 2.30 tan 4.00

Croeso Cynnes i Bawb

Cylch Ti a Fi

Noson Goffi

gyda stondinau,

Nos Wener, 17 Mai 2013
am 6.00 o’r gloch
yng Nghanolfan Rachub

CAPEL BETHEL (B)

Gwasanaethau

Ebrill
21 – Parch. Christopher Prew
28 – Mr Richard Lloyd Jones

Mai
5 – Parch. Dafydd Job
12 – Gweinidog
19 – Parch. Merfyn Jones

Oedfaon an 2.00 o’r gloch
Croeso Cynnes i Bawb

Capel Carmel, Llanllechid

Mentro i’r Ysgol Sul drwy’r eira



Fore Sul, 24 Mawrth daeth y plant ynghyd i ymarfer canu emynau ar gyfer Cymanfa Sul y Blodau, Bethlehem, Talybont. Wedi gorffen ymarfer mwynhawyd paned boeth a chacen siocled wedi ei gwneud gan Mari Rowlinson. Blasus iawn, diolch Mari.

Clwb Dwylo Prysur



Yn ystod mis Mawrth daeth Mr Bryan Griffith i’r Clwb i wneud crochenwaith hefo’r bobol ifanc. Dyma lun o Llinos a Mari yn paentio’r potiau gyda Mr Griffith. Roeddynt wedi ei paratoi ac wedi bod yn y poppy ers amser ac wedi oeri ddigon i’w harddurno. Y prosiect nesaf fydd hau hadau perlysiau a blodau yn y potiau. ‘Tyfu’, ydi thema’r flwyddyn yma. Diolch i Bryan am roi ei amser.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Gadael y pentref
Mae David, Kerry, ac Ethan wedi gadael Stryd Goronwy, ac wedi symud i gartref newydd ym Mraichmelyn. Rydym yn dymuno’r gorau i chi fel teulu yn eich cartref newydd.
Deunaw oed
Dathlodd Mared Roberts, Ffordd Gerlan, ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iti, Mared. Gobeithio iti gael diwrnod arbennig yn dathlu’r achlysur arbennig.

Taith i Austin, Texas.
Ar ddechrau Mis Mawrth bu Siôn Glyn, Gwernydd, ar daith gyda’i Grŵp ‘Y Niwl’ yn perfformio yng Ngwyl Ryngwladol SouthbySouthwest yn Austin Texas, yr Unol Dalieithau. Cawsant groeso ardderchog gyda’r Cymro o Gaerdydd, Huw Stephens, yn eu cyflwyno i’r dyrfa ddaeth i wrando arnynt yn chwarae eu cerddoriaeth.

Naw deg oed
Yn ddiweddar dathlodd Len Williams, Ffordd Gerlan, ei benblwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr ichi, Len, ar ddathlu’r penblwydd arbennig iawn hwn. Fyddai neb yn credu fod Len wedi cyrraedd yr oed hwn gan ei fod mor heini , yn cerdded o gwmpas, ac yn gyrru ei gar i bob man.Rydym yn gobeithio’n fawr ichi fwynhau’r dathlu yng nghwmni teulu a ffrindiau, Len.

Hanner cant
Dathlu’r hanner cant oedd hanes Mandy Roberts, Stryd Hir. Llongyfarchiadau mawr i tithau, Mandy, a gobeithiwn i ti fwynhau dathlu’r garreg filltir arbennig hon. Pob hwyl i’r dyfodol.

Llongyfarchiadau
Rydym yn estyn ein llongyfarchiadau calonnog i Lisa ac Ian, Stryd Goronwy, ar enedigaeth geneth fach, chwaer i Llion. Llongyfarchiadau mawr, hefyd, i Trefor a Sandra, Stryd Goronwy, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Pob bendith arnoch fel teulu.

Yn yr Ysbyty
Rydym yn gyrru ein cofion at Beryl Williams, Stryd Goronwy, sydd yn Ysbyty Eryri yng

Nghaernarfon. Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan, Beryl, a gobeithiwn gael dy weld yn ôl yn y pentref yn fuan iawn.

Diolch
Dymuna Owain Rhodri Evans, Rallt Isaf, ddiolch i deulu a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion, a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 21 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb!

Cofion
Rydym yn gyrru ein cofion at Phil Roberts, Stryd y Ffynnon, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri. Ein dymuniadau gorau ichi, Phil, gobeithiwn eich gweld chi o gwmpas y Gerlan yn fuan iawn.

Newyddion trist
Daeth newyddion trist iawn i’r pentref unwaith eto y mis hwn pan glywsom am farwolaeth Tracey Cook, Stryd Fer, a hithau ond yn wraig gymharol ifanc. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwys i’w phartner, Thomas Michael Jones, a’i theulu a’i ffrindiau i gyd.

Cyfarfod Cyhoeddus
Yn ddiweddar cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Caban i drafod sefyllfa echrydus parcio yn y pentref. Trefnwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Sir lleol, Dyfrig Jones, a daeth â swyddogion o Gyngor Gwynedd gydag ef.

Daeth tyrfa luosog ynghyd i leisio eu cwynion am y sefyllfa sydd yn bodoli, sefyllfa ble mae hi’n anodd iawn cael lle i’r trigolion barcio eu ceir. Mae’r sefyllfa yn cael ei gwneud yn waeth gan geir wedi eu parcio ym mhobman ar ochrau’r ffordd, ac mae hyn yn creu problemau mawr.

Eisoes mae gwasanaeth bwsiau wedi ei atal ar ôl 7 yr hwyr, gan nad yw’r bwsiau yn medru mynd heibio’r ceir sydd wedi parcio ar ochr y ffordd. Mae’r sefyllfa yn peri pryder gwaeth oherwydd, pe digwyddai tân, neu ddamwain, neu fod angen ambiwlans ar frys, ni allai cerbydau argyfwng gyrraedd y pentref. Gobeithio y bydd rhyw fath o ddatrys ar y broblem fawr hon yn y dyfodol gweddol agos.

Hoffai Cyng. Dyfrig Jones ddiolch i swyddogion Cyngor Gwynedd am roi o’u hamser i fynychu’r cyfarfod, i Paul Rowlinson am ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac i bawb a ddaeth allan ar noson oer i gyfrannu at y drafodaeth.

CANOLFAN RACHUB

Ar gael ar gyfer
Cyfarfodydd a gweithgaredd o bob math

PRISIAU LLOGI

£10.00 am sesiwn hyd at 4 awr
£15.00 – Partion neu benwythnosau

Cysylltwch â Godfrey Northam
(600872) am ddyddiadau rhydd

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd
Anfonwn ein cofion cynnes a’n dymuniadau gorau at bawb sydd yn wael yn y Bryn a’r pentref, sef Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr. Pam Jones, Olwen Lytham, Mary Robinson, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams.

’Rydym yn falch iawn fod Mrs Cassie Tindall, Tŷ Mawr, wedi dychwelyd gartref o Ysbyty Gwynedd ar ôl cael ei tharo’n wael ddechrau mis Mawrth. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd yn codi allan pan fydd y tywydd yn gwella.

Pen-blwyddi
Llongyfarchiadau i Mrs Pauline Edwards, Hen Dŷ’r Ysgol, fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddydd Mercher, 17 Ebrill – gobeithio y cewch ddiwrnod hapus, Pauline.

Bydd Mrs Muriel Owen, 5 Pentre Llandygái, yn cael ei phen-blwydd hithau ar yr un dyddiad, sef 17 Ebrill. Llongyfarchiadau, rydym yn dymuno’n dda i chwithau hefyd.

Ar ddydd Iau, 25 Ebrill, tro Mrs Mary Robinson, Fern Cottage, fydd i ddathlu ei phen-blwydd. Ein dymuniadau gorau am ddiwrnod dedwydd iddi hithau.

Llongyfarchiadau i Edmund Douglas-Pennant, Drws Melyn, fydd yn dathlu ei ben-blwydd ar ddechrau mis Mai. Gobeithio y cewch i gyd amser hapus ond peidiwch â gwledda’n ormodol.

Cydymdeimlad
Hoffem gydymdeimlo’n ddwys â Mrs Gill Lloyd-Williams a theulu’r diweddar Mr Bill Lloyd-Williams, Bethesda, a fu farw ar y cyntaf o Fawrth yn Ysbyty Gwynedd yn 70 mlwydd oed wedi gwaeledd hir.

Rydym yn cofio Bill yn dod i Sant Tegai fel Darllenydd Lleyg sawl blwyddyn yn ôl. Byddai’n dod ar foreau Sul a Mercher ac yn cymryd gwasanaethau y Foreol Weddi – dyn annwyl llawn hiwmor.

Estynnir cydymdeimlad dwys â Miss Nerys Jones a’i chwaer Beryl ar farwolaeth eu modryb (chwaer i’w tad) sef Mrs Eluned Owen, Dinbych, a fu farw ar 10 Mawrth yn 85 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd ddydd Sadwrn, 16 Mawrth, yng Nghapel Mawr, Dinbych. Rydym yn meddwl hefyd am Angharad, ei phriod Aled a’r plant, sydd wedi colli mam a nain annwyl iawn.

Marwolaeth
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mr. John Brian Morrell, Capcoch, Tal-y-bont, yn Ysbyty Gwynedd ddydd Mercher, 13 Mawrth, yn 73 mlwydd oed. Roedd John wedi bod yn wael ers amser maith ond fe frwydrodd yn ddewr trwy’r cyfan.

Bu’n ffyddlon iawn yn y cymun bob bore Mercher, a chyn iddo fynd yn wael roedd yn cymryd rhan yn rheolaidd – bydd colled fawr i ni yn Sant Tegai.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Maes-y-Groes fore Llun, 25 Mawrth, gyda’r Parch. John Matthews yn gwasanaethu. Claddwyd ei weddillion ym mynwent yr eglwys.

Cydymdeimlwn â Pat a’r teulu oll yn eu profedigaeth chwerw.

Priodas
Yn eglwys Sant Tegai ar ddydd Sadwrn, 23 Mawrth, priodwyd Einir Meredydd Young a Michael Edward Lloyd, y ddau o Dal-y-Bont. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch. John Matthews a Mrs Sioned Webb yn canu’r Delyn. Dymunwn hir oes a phob hapusrwydd I Einir a Michael.

Wythnos y Pasg
Bu prysurdeb mawr yn y dair eglwys yn ystod Wythnos y Pasg. Dydd Iau cablyd, roedd gwasanaeth Golchi Traed (a Dwylo) yn eglwys Sant Tegai. Dydd Gwener y Groglith roedd Gorymdaith Dystiolaethu yn cychwyn o Sant Tegai am 9.45 y bore i Eglwys Maes-y-Groes i Wasanaeth Codi’r Groes am 11.00. Ymlaen wedyn i’r Santes Fair, Tregarth, i Ddadorchuddio’r Groes am hanner dydd. Yn y prynhawn am 2.00 cynhaliwyd gwasanaeth Gorsafoedd y Groes ym Maes-y-Groes, Talybont.

Sul y Pasg
Daeth cynulleidfa dda I’r Cymun Bendigaid fore Llun y Pasg gyda’r Parch. John Matthews yn gweinyddu a Geraint Gill wrth yr organ. Diolch i bawb a gymerodd ran: y Ficer, Sue, Anne a Rhian. Diolch arbennig i Hazel, Nerys a’r merched caredig a fu’n addurno’r eglwys mor hyfryd gyda lliwiau’r blodau o wyn, gwyrdd a melyn, ac i bawb a gyfrannodd tuag at y blodau.

Balch iawn oedden o gael croesawu teuluoedd Dr a Mrs Robin Davies o’r America a Chaerdydd. Roedd y plant bach yn annwyl iawn a Hannah Louise wrth ei bodd yn cael cwmni rhai o’r un oed â hi.

Croesawyd Einir a Michael Lloyd hefyd, wedi iddynt ddychwelyd o’u mis mêl. Roedd gwahaniaeth mawr yn y tywydd ar Sul y Pasg, fel yr oedd ar 25 Mawrth, dydd eu priodas efo’r holl wynt, eira a rhew.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Cartrefi Newydd
Croeso i ddau deulu newydd i Dalybont, un i 35 Bro Emrys a’r llall i 34 Cae Gwigin.

Geni
Llongyfarchiadau i Sara a Chris, 31 Cae Gwigin, ar enedigaeth Jack, brawd i Callum ac Oliver.

Priodas
Llongyfarchiadau i Einir a Mike, 51, Bro Emrys ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i Mrs. Enid Hughes, 3 Lôn Ddŵr, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 20 Mawrth. Gobeithio eich bod wedi mwynhau’r “syrpreis” ar y diwrnod!

Diolch
Dymuna Mrs. Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, ddiolch o galon i bawb am bob dymuniad da a charedigrwydd a dderbyniodd pan fu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Daliwch i wella Rhiannon!

Pen-blwydd Arbennig



Yn dilyn ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar mae Mrs. Enid Hughes, Lôn Ddŵr, yn dymuno diolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur. Diolch yn fawr i bawb, yn cynnwys teulu, ffrindiau a chymdognon.

Eglwys Maes y Groes, Talybont

Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth sydyn John Brian Morrell, Cap Coch, ar y 13eg o Fawrth yn Ysbyty Gwynedd. Bu yn aelod ffyddlon yn yr Eglwys yn ogystal ag organydd cyn ei afiechyd.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Eglwys ac i ddilyn yn yr Amlosgfa ar y 25 Mawrth dan arweiniad ein ficer, y Parchedig John Matthews a’r

Parchedig Jenny Hood. Geraint Gill oedd yn cyfeilio.

Dymunwn estyn ein cydymdeimlad dwys at Pat ei wraig a’r teulu yn eu profedigaeth a’u colled fawr.

Cynhaliwyd gwasanaethau i ddathlu Gwyl y Pasg gan ddechrau ar nos Iau Cablyd yn Eglwys St Tegai. Bore dydd Gwener y Groglith roedd gorymdaith tystiolaethu gan gychwyn yn Eglwys St Tegai a chael gwasanaeth yn y dair Eglwys i ddadorchuddio’r Groes. Dydd Sul y Pasg cynhaliwyd yr offeren yn y dair Eglwys dan arweiniad ein ficer y Parchedig John Matthews.

Hoffem ddiolch i bawb oedd yn gyfrifol am eu gwaith caled yn darparu cinio blasus y Garawys yn Eglwys Gelli a hefyd am eu croeso i ni yno.

Capel Bethlehem, Talybont

Oedfaon
Ebrill 21 Gweinidog;
Ebrill 28 Parchg. Iorwerth Jones Owen, Caernarfon ;
Mai 6 : Oedfa o Fawl (Detholiad 2013) ;
Mai 13 : Gweinidog ;
Mai 19 : CAU – Sul y Gymanfa.

Oedfaon am 2 o’r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

Cymanfa Sul y Blodau
Er gwaetha’r tywydd cafwyd Cymanfa lwyddiannus eto eleni!

Yn anffodus, bu raid i’r arweinydd, y Parchg. Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog, dynnu’n ôl oherwydd profedigaeth yn y teulu. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr. James Griffiths, Waen Wen, am lenwi’r bwlch ar fyr rybudd. Mr. D. Wynn Williams oedd yn cyfeilio unwaith eto.

Cyflwynwyd eitemau ardderchog gan gôr merched Lleisiau Llannerch (arweinydd Mrs. Grês Pritchard) a phlant Ysgolion Sul Carmel a Bethlehem, o dan arweiniad Mrs. Helen Wyn Williams. Neville Hughes oedd yn llywyddu eto eleni!

Pen-blwydd Arbennig
Ar ddydd Sul, 7 Ebrill, cyrhaeddodd Barbara Jones garreg filltir bwysig, sef ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed. Roedd yna ddathlu yng nghyfarfod y Bwrlwm yn ogystal a dathliadau eraill gyda’i ffrindiau. Llongyfarchiadau Barbara, a diolch am dy holl weithgarwch yn y capel, ac am dy holl gymwynasau yn y fro a thu hwnt! Penblwydd hapus!

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Drwg iawn gennym glywed bod ein gohebydd, John Huw Evans, wedi cael ei gymryd i Ysbyty Gwynedd ar ddechrau’r mis. Yn ôl pob sôn mae John yn gwella, a’r gobaith yw y bydd wedi cael dod adref erbyn y daw’r rhifyn hwn o’r Llais allan! Mae caredigion Llais Ogwan i gyd yn gwybod am ffyddlondeb a theyrngarwch John i’r Llais, heb sôn am ei gyfraniad pwysig i lwyddiant ein papur bro dros nifer fawr o flynyddoedd. Dymuniadau gorau oddi wrth bawb sydd ynglŷn â’r Llais!

Cydnabod Caredigrwydd



Ychydig wythnosau yn ôl fe ymddeolodd Colin Davies o fod yn bostmon llawn amser ac agor siop farbwr yn Stryd y Deon, Bangor. Bu Colin yn bostmon yn Rhiwlas a’r ardal am nifer o flynyddoedd ond roedd yn llawer mwy na rhywun oedd yn dosbarthu llythrau; roedd hefyd yn gymwynaswr ac yn barod i roi help llaw i unrhyw un pan welai’r angen.

Fel arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad y cyhoedd casglwyd rhoddion yn y pentref i’w cyflwyno i Colin. Cyflwynwyd iddo £300 mewn arian, siocled, gwin ac amryw o roddion eraill. Roedd hyn yn ychwanegol i’r rhoddion a gyflwynwyd iddo yn bersonol.

Gwyddai ambell un a adnabu Colin yn dda am ei ddiddordeb yn y beiciau modur Lambretta a’i hoffter ohonynt. Cafwyd y syniad o gyflwyno mwg i Colin gyda llun o Lambretta arno. Hefyd ar y mwg roedd y geiriau ‘Rhodd gan drigolion Rhiwlas’.

Cydnabod Cydymdeimlad
Dymuna Ieuan, Donna ac Angela a theulu’r diweddar Elfyn Hughes ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom yn ein profedigaeth o golli Elfyn.

Hoffem ddiolch i’r Parch. Dafydd Coetmor Williams am ei wasanaeth ddydd yr angladd ac i Iona Jones am gyfeilio wrth yr organ. Diolch hefyd i Stephen Jones y trefnwr

angladdau ac am y rhoddion ariannol er cof am Elfyn tuag at Ymchwil Cancr.

Pentref Iwcus

Er yr holl eira a rhew a orchuddiodd ran helaeth o Ogledd Cymru yn ystod pythefnos olaf mis Mawrth, buom ni yn Rhiwlas yn eithaf lwcus. Ychydig mewn cymhariaeth a ddisgynodd yma. Dim digon i rwystro pobl rhag teithio i’w gwaith er fod problemau mewn mannau mor agos i ni â Bethesda a Llanberis.

Bu Bwlch Llanberis ar gau hyd ddiwedd y mis pan lwyddwyd i dorri ffordd trwodd. Roedd hefyd yn amhosibl rhedeg tren yr Wyddfa dros y Pasg. Mae rhan helaeth o Llyn Ogwen yn parhau wedi rhewi a hynny ar ddechrau Ebrill. Tybed a oes cofnod o pryd y digwyddodd hyn o’r blaen? 1947 neu 1963 efallai. Rhaid canmol gweithwyr Cyngor Gwynedd am eu holl waith caled yn ystod yr wythnosau diwethaf, o dan amgylchiadau eithriadol o anodd.

Erbyn y daw y rhifyn hwn o’r Llais o’r wasg bydd yn 18 Ebrill. Hwn yw’r dyddiad y disgwylir y Gog i gyrraedd yr ucheldir uwchlaw Cae Mawr yn arferol. Tybed pryd y cyrhaedda eleni?

Merched y Wawr, Rhiwlas Cyfarfod mis Mawrth
Cyfarfu’r gangen yn y Neuadd a’r siaradwraig wadd oedd Gwenllïan Roberts, Swyddog Ailgylchu Gwynedd.

Eglurodd mai nod y Cyngor yw ailgylchu 52%, ac mae’r canran yma bron wedi ei gyflawni. Mae’n bwysig ein bod yn anelu at y targedau gan fod y safle yng Nghlynnog a’r Cilgwyn wedi cau a dim lle i fwy o sbwriel yno.

Ers rhai wythnosau nawr rydym yn cael rhoi mwy o bethau yn y bocs glas. Hyd yn ddiweddar dim ond poteli plastig oedd yn mynd i’r bocs ond bellach gellir ailgylchu plastigion eraill yn ogystal â chartonau a tetropak.

Pwysleisiodd fod y bocs ailgylchu sbarion bwyd yn bwysig; maes o law fe sefydlir system treulio anaerobig yn Llwyn Isaf yng Nghlynnog a defnyddir yn nwyon i gynhyrchu trydan, digon i ddigoni 900 o dai.

Roedd yn amlwg fod Gwenllïan yn angerddol dros y busnes ailgylchu ac roedd yn ein hannog i helpu’r Cyngor i gyrraedd y targed o ailgylchu 52% o’r gwastraff. Cawsom gyfle i gael trafodaeth fywiog ac addysgiadol. Helen oedd yn gyfrifol am y te.

Mae nifer o’r aelodau wedi methu â mynychu’r cyfarfodydd yn ddiweddar oherwydd gwaeledd a rhesymau eraill. Gobeithir pan ddaw’r gwanwyn a’r tywydd yn cynhesu y bydd mwy o’n haelodau’n gallu bod yn bresennol. Bydd swyddog o’r Ambiwylans Awyr yn dod atom i’r cyfarfod nesaf.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Noson Picnic a Cherddoriaeth,
Yn dilyn ymlaen o weithgareddau hynod llwyddianus dros y blynyddoedd bydd Apêl Pentir yn cynnal noson bicnic a cherddoriaeth ar nos Sadwrn 27 Gorffennaf. Mwy o fanylion i ddilyn.

Parchu Pentir - Casglu Sbwriel
Ar Dydd Sul 23 Mawrth er oered y tywydd daeth niferoedd o drigolion Rhyd-y-Groes a Phentir ynghyd i gasglu sbwriel o amgylch yr ardal. Rhyngom casglwyd 14 bag bin o sbwriel. I gael gwybod am ddyddiadau casglu sbwriel nesaf ewch i wefan pentir.org. Braf fyddai gweld wynebau hen a newydd. Y mae’n weithgaredd clodwiw. a’r mwyaf o bobl, y taclusaf y pentref.

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Mawrth 1af Rhif 35
Margaret Williams, Rhiwen
2ail Rhif 30
Mair Roberts, Rhiwlas
3ydd Rhif 63
Eira Crocombe, Tregarth

Garddwest
Bydd ein Garddwest flynyddol yn cael ei chynnal eleni ar brynhawn Sadwrn 25 Mai an 2 o’r gloch yn ardd Y Ficerdy, Pentir. Bydd croeso i bawb ymuno yn yr hwyl.

Gwasanaethau’r Sul
Cynhelir y Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45y.b.

Sul cyntaf a thrydydd -
Cymun Bendigaid dwyieithog
Ail a Phedwerydd Sul -
Boreuol Weddi ddwyieithog
Mae croeso cynnes i bawb ymuno yng ngwasanaethau’r Sul.

Cynghorydd Lleol yn canmol y gwelliannau diogelwch y ffyrdd ym Mhentir

Mae Cynghorwyr Plaid Cymru ym Mhentir ger Bangor yn croesawu’r gwelliannau sydd wedi eu gwneud i ffordd yr A4244 ym Mhentir. Yn dilyn pwysau gan gynghorwyr Gwynedd a chynghorwyr Cyngor Cymuned Pentir, cyflwynwyd mesurau newydd ar y ffordd i wella diogelwch ac yn y gobaith o leihau damweiniau rhwng cerbydau.

Yn ôl Cynghorydd Plaid John Wyn Williams sy’n cynrychioli trigolion Pentir ar Gyngor Gwynedd: “Dwi’n falch iawn bod y cydweithio yn yr ardal wedi bod yn llwyddiant. Mae trigolion lleol, Parchu Pentir, Cyngor Cymuned Pentir a Chyngor Gwynedd wedi gweithio ar y cyd i sicrhau bod holl ddefnyddwyr y ffordd yn gweld gwelliannau i’r rhan yma o ffordd yr A4244. Mae arwyddion yn annog gyrwyr i deithio o dan 50 milltir yr awr ac arwyneb lliw amlwg wrth y gyffordd yn fodd i annog defnyddwyr i leihau eu cyflymder wrth gyrraedd y gyffordd.

“Dwi’n falch bod pobl wedi gweld synnwyr a bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i’r awdurdodau wedi sicrhau bod holl ddefnyddwyr, gan gynnwys, cerddwyr, beicwyr a marchogion yn gallu mwynhau’r ardal a hynny’n fwy diogel. Mae pobl leol wedi gweithio’n ddifflino dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod diogelwch yn chwarae rhan flaenllaw yn yr ardal. Mae troedffyrdd yn cysylltu canol pentref Pentir gyda Rhyd y groes a chyswllt pellach o’r gyffordd i Rhiwlas yn welliant mawr i bobl leol,” meddai’r Cynghorydd Williams.

Yn ôl Lowri James o Gyngor Cymuned Pentir: “Mae’r mesurau diogelwch y ffyrdd newydd yn chwa o awyr iach i’r gymuned, ac mae’r Cynghorydd John Wyn Williams wedi gweithio’n ddi-flino drosom i sicrhau’r gwelliannau. Mae’n wych bod cydweithio yn golygu bod y gwelliannau wedi digwydd a bod pobl leol bellach yn cael y cyfle i fwynhau cerdded, beicio a marchogaeth mewn awyrgylch llawer mwy diogel. Mae gyrwyr yn llawer mwy ymwybodol bod angen arafu wrth iddynt gyrraedd cyffordd Pentir.”

Costiodd y gwaith £185,000 trwy TAITH, consortiwm trafnidiaeth gogledd Cymru i gwblhau’r gwelliannau ym Mhentir yn ogystal â’r gwaith ar Allt Nant y Garth gerllaw.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

Gwellhad
Gwellhad llwyr a buan i Carys Williams, Garreg Wen, Tal y Cae, wedi iddi gael damwain yn ddiweddar a thorri asgwrn yn ei choes.

Da clywed fod Gwenllian Owen, Meillionnydd, Tal y Cae, yn gwella wedi triniaeth mewn ysbyty yn Birmingham.

Cydymdeimlad
Daeth profedigaeth i ran Islwyn Morris a’r teulu, 49 Ffordd Tanrhiw, pan fu farw ei frawd Eifion Morris o Coetmor, Bethesda. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch.

Profedigaeth
Ar 7 Mawrth, yn Ysbyty Gwynedd Bangor, bu farw Ellen Griffiths, 22 Erw Faen, a hithau’n 81 mlwydd oed. Roedd yn briod â’r diweddar Victor Griffiths, yn fam i Melvin, Wyn, Marian ac Arvon ac yn Nain i Richard, Alex, Sioned, Ifan a Llion. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Shiloh gyda’r gwasanaeth yng ngofal ei gweinidog, sef Y Parchedig Gwynfor Williams a Mr Wyn Williams yn cyfeilio ar yr organ. Roedd yn aelod triw a chyson yn Shiloh a bydd bwlch ar ei hôl ymhlith yr aelodau. Cydymdeimlwn gyda’r holl deulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn fel ardal gyda theulu Herbert Percival Parry [Percy] fu farw ar Fawrth 23 wedi gwaeledd hir a chas. Mae ei ferch Amanda a’r teulu yn byw yn 11 Tal y Cae a chydymdeimlwn gyda chi i gyd fel teulu yn eich hiraeth.

Llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd
Unwaith eto rydan ni’n llongyfarch Aziliz Kervegant, Tan Dderwen, Tregarth a gipiodd ddwy wrdd gyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Llwyddodd i ennill y wobr gyntaf am ganu unawd Blwyddyn 5 a 6 ac roedd hefyd yn un o drawd o Ysgol Llanllechid lwyddodd i gael y wobr gyntaf am ganu Grŵp Lleisiol dan 12 oed.

Llongyfarchiadau i Manon Owen, 9 Tal y Cae am ei llwyddiant hithau yn ennill y drydedd wobr am ganu unawd dan 19 mlwydd oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

Da iawn tithau Huw Morris Jones, Lliwedd, am fod yn rhan o’r Grŵp canu Bechgyn o Ysgol Tryfan, Bangor enillodd y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Sir.

Beth am gael mwy o hanes rhai fu’n fuddugol yn Eisteddfod Sir yr Urdd o’r ardal ac sydd yn edrych ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro yn Mis Mai/Mehefin eleni ?

Merched y Wawr, Cangen Tregarth
Dathlodd aelodau’r gangen Wyl Ddewi gyda noson yng nghwmni y grŵp Boncathod o ardal Bethesda.

Cyflwynwyd y merched i’r gynulleidfa gan Marred Glynn Jones ac yn ystod y noson diddanwyd ni drwy ganeuon gwerin a thraddodiadol gyda chysylltiad â Dyffryn Ogwan a gyda beirdd a llenorion yr ardal. Cafwyd caneuon yn ymwneud â hiraeth a chariad a phob dehongliad yn deimladwy a didwyll. Noson werth chweil i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant

Diolchwyd i’r merched gan Mary Jones a pharatowyd y baned gan rai o aelodau’r pwyllgor.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar Ebrill 8 gyda noson yng nghwmni Gwilym Evans o Lanberis fydd yn siarad ar y testun ’Oel Morris Ifans’. Croeso cynnes i bawb i Festri Capel Shiloh am 7 o’r gloch.

Bore coffi Ymchwil Cancer
Ar Fawrth 2, yn Neuadd Ogwen, Bethesda, cynhaliwyd Bore Coffi i godi arian i Ymchwil Cancer y Gogledd Orllewin, er cof am Carwyn, mab Annwen ac Emlyn Thomas, Tre Ceiri, Tal y Cae, Tregarth.

Llwyddwyd i godi £820 a dymuniad y teulu yw diolch o waelod calon am gyfraniad a chefnogaeth pawb o Ddyffryn Ogwen a thu hwnt i’r achos teilwng yma.

Diolch i Annwen ac Emlyn am drefnu y Bore Coffi.

Cylch Meithrin Tregarth
Creoso cynnes i’r holl blant newydd a’u rhieni i Gylch Meithrin Tregarth. Mae’n blesser gweld gymaint o blant yn barod am hwyl a sbri bob bore.

Bu’r plant yn brysur iawn wrth ddilyn thema ‘Dydd a Nos’ ynghyd a dathlu sawl diwrnod arbennig sef Blwyddyn Newydd Cheiniadd, diwrnodd y crempog, Dydd Gŵyl Dewi a’r Pasg.

Oes gynnoch chi blentyn 2 oed neu fwy? Beth am iddo/iddi ymuno â ni? Dan ni’n cymryd enwau rwan ar gyfer mis Medi.

Ti a Fi Cylch Meithrin Tregarth
Mae Ti a Fi Cylch Meithrin Tregarth wedi bod yn brysur iawn efo babis a rhieni newydd yn dod i chwarae, canu a chael paned. Mae yna gyfle hefyd i siarad efo yr ymwelydd Iechyd Menna Williams a pwyso eich babi. Dan ni wedi mwynhau sesiwn gan TWF, ac ar Ddydd Gŵyl Dewi daeth Annest o TWF Môn Ogwen er mwyn gwneud crefftau a chanu cân arbennig ar gyfer yr wyl.

Cylch Meithrin Tregarth
(Rhan o’r Mudiad Ysgolion Meithrin)
Dydd Llun i Dydd Gwener
9.00-12.00 £6 y sesiwn
Clwb Cinio £4 y sesiwn
Plant Meithrin Ysgol Tregarth yn unig

Ti a Fi Cylch Meithrin Tregarth
(gyda ymwelydd Iechyd)
Dydd Gwener 10.00 i 12.00 £2
Cynhelir bob sesiwn yng Nghanolfan Gymunedol Tregarth.

A oes gennych lefel 2/3 mewn gofal plant?
Cysylltwch gyda ni. Rydan ni’n edrych am staff wrth gefn i ymuno â’n tîm arbennig o Antis.

Rhif Ffôn Cylch Meithrin Tregarth: 01248 602802 neu 07825406640

Capel Shiloh, Tregarth

Yr Ysgol Sul 10.30
Oedfa’r hwyr 5.00 o’r gloch

Ebrill
14 Richard Lloyd Jones, Bethel
21 Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans, Ynys Môn
28 Y Parchedig Eric Roberts, Caethro.

Mai
05 Y Parchedig Gwynfor Williams [Sacrament]
12 Oedfa Deulu am 10.30
19 Y Parchedig Trefor Jones, Caernarfon

Croeso i aelod newydd i’n plith i Shiloh, sef Mrs Eirwen Pennant Lewis, Llanfairpwll. Bydd yn gwmni i’w merch, sef Ffion Rowlinson sydd yn un o aelodau gweithgar y capel a’r enwad. Croeso cynnes iawn.

Roeddem yn drist fel aelodau Shiloh o golli un o’n haelodau, sef Mrs Ellen Griffiths, Erw Faen. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf gyda’r holl deulu’. Cynhaliwyd ei hangladd yn Shiloh ar Fawrth 15.

Ar fore Sul y Blodau, sef Mawrth 24 cynhaliwyd Oedfa Deulu dan arweiniad aelodau’r Ysgol Sul. Drwy gyfrwng yr hanesyn am Iesu yn gwella Bartimeus ddall cyflwynodd yr aelodau ifanc eu fersiwn hwy o’r stori a hynny’n raenus dros ben.

Methodd rhai o’r aelodau â bod yn bresennol oherwydd yr eira trwchus ym Mynydd Llandygai ac eraill gan eu bod ar wyliau. Cafwyd unawd gan Aziliz am y Pedwar Tymor a datganiad ar offeryn pres gan Cerys Elen. Cafwyd emynau a darlleniadau ar gyfer yr achlysur ac yn dilyn cafwyd anerchaid amserol ac addas gan yr Athro Wyn Thomas, Bangor. Diolchwyd i bawb oedd yn gyfrifol am yr oedfa gan Mrs Eirwen Williams Tyddyn Dicwm ac i’r cyfeilydd, Mrs Christine Morris Jones, Lliwedd.

Ar ddiwedd yr oedfa rhannwyd wyau Pasg i bawb o’r plant a’r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gwasanaeth.

Eglwys y Santes Fair Tregarth

Ebrill
21 9.45 Boreol Weddi
28 9.45 Cymun Bendigaidd

Mai
5 9.45 Gwasanaeth Anffurfiol
12 9.45 Cymun Bendigaidd
19 9.45 Boreol Weddi

Clwb Cant Mis Mawrth
£20 21 Eirwen Williams
£10 60 Rita Evans
£10 54 Rosemary Williams
£ 5 25 Myra Jones

Profedigaethau
Trist yw cofnodi marwolaeth Bill Lloyd-Williams ar Fawrth y 1af. Cymerodd wasanaethau yn Gelli am rai blynyddoedd a phawb yn eu mwynhau. Roedd yn gymwynasgar iawn ac yn barod ei gymorth i unrhyw un. Cydymdeimlwn yn ddwys â Gill, Sara, Charlotte a William a’r teulu i gyd yn eu galar.

Daeth newyddion trist I Mrs Myra Jones o golli Susan, gwraig Keith. Colled sydyn arall i’r teulu. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Myra Jones, Keith a’r teulu i gyd yn eu galar.

Cynhaliwyd ciniawau Garawys llwyddiannus iawn. Braf gweld cynifer yno bob wythnos; gwnaed elw o £256. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi. Cynhelir y Festri Pasg dydd Mercher, Ebrill 24 am 7.00 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb!

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwél y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ **600744**

Llongyfarchiadau
I Faye ar enedigaeth merch fach, Nancy Alice, ac I Alwenna yn Nain a Dei a Megan Parry yn hen Daid a hen Nain. Pob hapusrwydd I chi.

Clwb y Mynydd
Cafwyd Te Prynhawn wedi ei drefnu gan Gaffi Coed y Brenin, rhodd gan Gapel Amana. Diolchwn i’r Capel ac i Gaffi Coed y Brenin am wledd hyfryd.

Clwb Ieuenctid
Bu’r plant yn brysur yn gwneud cardiau Pasg a choginio teisennau. Ar ddechrau Ebrill trefnwyd Helfa Wyau Pasg, a phawb wedi mwynhau. Diolch i Iola a Steff am y trefniadau ac i James am y rhodd o wyau Pasg.

Mynydd Llandygái - Parhad

Eglwys y Santes Ann
a’r Santes Fair

Ebrill

21: 9.45 Boreol Weddi

28: 9.45 Cymun Bendigaid

Mai

05: 9.45 Gwasanaeth Teuluol

12: 9.45 Cymun Teuluol

19: 9.45 Boreol Weddi

Braf oedd gweld cynifer o bobl yn y gwasanaeth fore Sul y Pasg - bore heulog braf wedi’r eira mawr.

Yn anffodus bu’n rhaid gohirio’r Ffair Basg ond bwriadwn gynnal *Te Bach y Sulgwyn* efo stondinau brynhawn Sadwrn, 18fed Mai am 2 o’r gloch. Ymunwch â ni ar gyfer te’r prynhawn.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy’n sâl ar hyn o bryd, anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Glasinfryn
Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor LL57 4UP

01248 351067

Marred567@btinternet.com

**Clwb Cant y Ganolfan
Mis Mawrth**

£20 - 16 - Rhiannon Hughes
£10 - 116 - Hannah Williams
£ 5 - 54 - Barbara Jones
£ 5 - 95 - Debbie Hill

Bingo
Gwnaed elw o £105.50 yn y Bingo a gynhaliwyd ar 8 Mawrth tuag at y Ganolfan. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth.

Ac ar 12 Ebrill am 7.30yh, cynhaliwyd Bingo arall gyda’r elw y tro hwn yn mynd tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Gobeithir cynnal yr un nesaf ar 17 Mai gyda’r elw yn mynd at Dîm Achub Dyffryn Ogwen.

Sefydliad y Merched
Unwaith eto eleni buom yn ddathlu Gŵyl Ddewi gyda Chawl a Chân. Daeth Mr Michael Richards atom ar y noson. Bu’n chwarae’r delyn Geltaidd i’n diddanu a chawsom hwyl yn ymuno yn y canu. (Gwylwch! Efallai y gwnawn ni ddechrau côr yn y Sefydliad!)

Diolchwyd i Mr Michael Richards yn gynnes iawn gan Mrs Glenys Morgan. Yn dilyn y diolchiadau cawsom wledd o gawl a phob math o ddanteithion wedi eu paratoi gan yr aelodau. Noson braf, cymdeithasol gyda miwsig hyfryd. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

Ymgrych yn parhau
Mae’r ymgrych i gael mwy o aelodau i Glwb Cant y Ganolfan yng Nglasinfryn yn parhau. Mae nifer o aelodau newydd wedi ymuno erbyn hyn sy’n newyddion da i’r Pwyllgor Rheoli sy’n edrych ar ôl y Ganolfan ac sy’n awyddus i sicrhau fod y cyllid ar gael i gadw’r adeilad mewn cyflwr ardderchog ar gyfer y gymuned.

Os hoffech chi fod yn aelod o’r Clwb Cant, yna cysylltwch â Mair Griffiths, y Trysorydd neu Marred Glynn Jones (manylion cyswllt uchod).

Helfa Wyau ar Foelyci



Plant Mynydd wedi mwynhau ei hunain yn hel wyau pasg ar Foelyci ar ddydd Llun y Pasg. Diolch i Coetir Mynydd a Chlwb Ieuenctid Mynydd am y rhoddion.

CHWILAIR EBRILL 2013
Cwmnïau Bysys Gogledd Cymru

N	Y	M	R	S	X	B	Y	J	S	O	S	N	J	A	Y	H	U	W	E
V	P	Z	E	K	L	C	G	W	I	T	Z	L	E	E	X	F	X	V	V
W	L	C	R	C	R	F	Y	H	H	G	E	P	G	D	L	X	C	G	E
H	S	T	I	L	H	R	N	Y	O	K	L	A	D	L	G	X	G	E	Z
S	R	L	C	H	P	E	M	E	I	O	Z	I	A	K	V	H	O	S	O
E	O	S	H	D	Q	J	L	A	V	A	B	N	Z	Z	I	O	P	E	M
I	T	R	A	A	S	U	S	L	J	I	G	B	J	E	R	L	L	H	Y
O	O	O	R	Q	V	W	B	R	M	O	N	J	C	S	B	Y	S	C	O
N	M	T	D	H	K	P	B	J	E	A	Y	B	Z	T	C	H	Y	A	S
T	I	O	S	N	P	J	W	D	W	X	R	A	L	V	N	E	E	O	Y
M	N	M	B	N	G	T	R	J	D	W	P	O	E	U	I	A	R	C	O
O	F	S	U	B	G	E	S	Q	H	D	M	Y	O	D	E	D	G	O	M
T	Y	I	S	V	D	C	O	H	T	X	E	Q	E	N	K	M	A	N	D
O	C	R	Y	S	Z	U	P	I	X	X	S	V	H	K	F	O	D	D	R
R	M	E	B	X	M	A	J	W	Y	O	T	H	I	T	M	T	S	U	V
S	W	P	E	O	X	W	N	A	Y	D	A	S	N	R	B	O	E	D	B
N	Q	X	E	H	U	T	O	J	T	I	B	C	U	I	M	R	H	N	C
L	T	O	C	I	A	M	O	T	O	R	C	O	L	T	D	S	T	A	Y
U	W	N	W	A	L	E	S	S	I	L	V	E	R	P	E	L	E	L	S
J	O	A	F	U	G	L	W	U	Y	Z	O	U	W	E	U	D	B	L	X

Y mis yma mae deuddeg o GWMNĬAU BYSUS GOGLEDD CYMRU i’w darganfod.

Mae un clw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddi. (Mae LL, CH, DD, TH), ac yn y blaen yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at ddibenion y chwila'r dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW erbyn y cyntaf o Fai os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi dod o hyd i’r deuddeg, yna’r nifer agosaf fydd yn cael y wobwr.

Diolch am rhoi cynnig ar y chwila'r unwaith eto, yn anffodus nid oedd y chwila'r o’r un maint ag yr oedd cynt, nag yn glir iawn ond fe gafodd nifer dda ohonoch hyd i’r atebion cywir. Dyma atebion Mawrth, Aneurin Bevan, Catherine Zeta Jones, David Lloyd George, Esgob Williams Morgan, Gerallt Gymro, Henry Morton Stanley, Hywel Dda, Kate Roberts, Michael D. Jones, Neil Kinnock, Saunders Lewis, Tanni Grey Thompson.

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion cywir. Merfyn a Laura Jones, Pen-isa’r Allt Tregarth; Glenys Clark, Ffynnon Wen Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydilas; Eira Hughes, Ffordd Ffrydla,s Bethesda; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; E. Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Doris Shaw, Llwyn Hudol, Bangor; Glenys Roberts, Hen Barc, Mair Jones; Ffordd Bangor, Herbert Griffiths; Tregarth, Eirlys Edwards; Central Garage Bethesda; Alwyn Rowlands, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Meirwen Owen, Rhiwlas; Rhiannon Ifans; Glan Aber, Pant.

Enillydd Mawrth oedd. Doris Shaw 26 Llwyn Hudol Bangor LL 57 1SG

MODURON PANDY Cyf.

Tregarth

Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlsans Gogledd Cymru**



Gofal Ychwanegol Bangor

Cae Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor

Datblygiad ar y cyd gan Dai Gogledd Cymru a Chyngor
Gwynedd a fydd yn gyfle gwyh i bobl hŷn fanteisio ar
ffordd o fyw annibynnol mewn cymuned ddiogel a
chartrefol gyda gwasanaeth gofal hyblyg.

Bydd cyfres o sesiynau galw heibio gyda swyddogion o
Dai Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd yn cael eu
cynnal i rannu gwybodaeth am y datblygiad:

**Capel Berea Newydd, Bangor -
23/04/2013; 10:00am - 1:00pm**

**Neuadd Ogwen, Bethesda -
23/04/2013; 2:00 - 4:00pm**

**Clwb Hiracl, Bangor -
25/04/2013; 10:00am - 1:00pm**

**Canolfan Penrhosgarnedd, Bangor -
26/04/2013; 1:00 - 3:30pm**

☎ 01492 572727

☎ www.nwha.org.uk

☎ 01286 679289

☎ www.gwynedd.gov.uk



Posh Paws Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00

Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*



Swyddfeydd eraill:

Llangefni **Amlwch** **Benllech**
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Lôn Las Ogwen wedi ei hymestyn i Fethesda

Ar hyn o bryd, mae Lôn Las Ogwen - llwybr addas ar gyfer cerddwyr a beicwyr - yn ymestyn o Borth Penrhyn ar gyrion dinas Bangor hyd at Dregarth. Mae'r prosiect yma, sy'n werth £14.5 miliwn yn golygu ymestyn y llwybr i Fethesda.

Dywedodd y Cynghorydd John Wyn Williams, aelod Cabinet Cyngor Gwynedd gyda chyfrifoldeb am lwybrau:

“Rydw i'n falch iawn fod gwaith wedi cychwyn ar y cynllun pwysig hwn ac yn hyderus y bydd y llwybr newydd o werth enfawr i'r ardal leol. Fel Cyngor, rydym yn awyddus i annog mwy o bobl i gerdded a beicio, nid yn unig yn ystod eu hamser hamdden ond fel modd i deithio o A i B.

“Mae gweithgareddau awyr agored yn cynyddu mewn poblogrwydd ac rydym yn hynod o ffodus yma yng Ngwynedd bod gennym gefn gwlad syfrdanol i fwynhau'r awyr agored.

“Mae cerdded ar hyd y llwybrau hyn yn fodd o agor llygaid pobl i'r hanes lleol, gan fod cryn dipyn o rwydwaith Lôn Las wedi ei hadeiladu ar gyn rheilffyrdd, yn cyfeirio'n ôl i orffennol diwydiannol Gwynedd.

“Rydym hefyd yn awyddus i annog mwy o bobl i adael eu ceir adref, ac i gerdded neu feicio i'w gwaith, ysgol, i'r siopau neu i ymweld â ffrindiau. Mae'r effaith amgylcheddol o gael cymaint o geir ar y ffordd yn amlwg, a byddwn yn annog mwy o bobl i ystyried dulliau eraill o gludiant yn y dyfodol.”

Ychwanegodd y Cynghorydd Ann Williams, yr aelod lleol ar gyfer ward Ogwen ar Gyngor Gwynedd: “Rydw i'n falch o weld y gwaith pwysig hwn wedi ei gychwyn. Mae wedi cael ei groesawu gan bobl leol a bydd o les enfawr i'r ardal.

“Ni fyddai'r cynllun hwn erioed wedi cael ei wireddu heblaw am y gefnogaeth a gafwyd gan berchnogion tir lleol ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu parodrwydd i gydweithredu. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill, cynghorau cymunedol ac Ysgol Dyffryn Ogwen.”

Dywedodd y Cynghorydd Gwen Griffith, yr aelod ar gyfer Tregarth a Mynydd Llandygai ar Gyngor Gwynedd: “Rydw i'n falch bod y cam yma o'r cynllun wedi cychwyn, gan ei fod yn dilyn y gwaith llwyddiannus a wnaethpwyd ar y bont yn Felin Hen a'r gwelliannau i Barc Meurig - sydd wedi dyblu defnydd o'r parc wrth i bobl gerdded ar gyfer hamdden.

“Rydw i hefyd yn falch bod rhagor o waith i fod i gychwyn yn Nyffryn Ogwen yn nes ymlaen eleni, pan gaiff y llwybr rhwng Tregarth a Bethesda ei uwchraddio drwy agor Twnnel Dinas ger Cerrig Llwydion.”

Mae'r buddsoddiad gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn galluogi pobl i gerdded a beicio ar hyd Gwynedd oddi wrth drafftig: mae Lôn Las Ogwen wedi'i gysylltu gyda Lôn Adda ym Mangor, sydd yn cysylltu'n hawdd gyda Lôn Las Menai rhwng Y Felinheli a Caernarfon, sydd yna'n cysylltu gyda Lôn Eifion rhwng Caernarfon a Bryncir. Mae llwybrau cymunedol eraill sydd yn ymganghennu o'r llwybr hwn yn ymestyn mor bell at y gorllewin ag Aberdesach.

Am ragor o wybodaeth am lonydd glas Cyngor Gwynedd, ewch i: www.gwynedd.gov.uk/lonlasgwynedd



Gwaith yn bwrw ymlaen ar ymestyn Lôn Las Ogwen

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



MAE Côr Meibion Dyffryn Peris Yn hysbysebu am GYFEILYDD

Am fwy o wybodaeth
cysylltwch â'r Cadeirydd-

Ifor Jones ar (01286) 870190



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamsy@parliament.uk

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau yn Nyffryn Ogwen rhwng 1819 a 1822

1819

- Codi’r adeilad cyntaf ar y lôn bost newydd – tafarn y ‘Star’ a’r llain o dir y tu cefn iddi yn eiddo perchnogion y dafarn. Codwyd tai a ffatri ar y tir hwn ymhen rhai blynnyddoedd wedyn a chwbl naturiol oedd cyfeirio ato fel ‘Cae Star’.
- Codi Pont y Pandy gan Thomas Telford (a dyddiad ei chodi wedi ei gerfio ar garreg yn wal y bont). Galwyd hi’n Bont Half-Way oherwydd ei bod hanner ffordd rhwng yr hen

George Hotel (ar hen safle’r Coleg Normal ar ffordd Porthaethwy) a Thy’n-y-Maes, y ddau le hyn yn fannau pwysig yng nghyfnod y Goets Fawr.

1820

- Adeiladu ysbyty i’r chwarelwyr ym Mangor.
 - Yr Annibynwyr yn codi capel mewn lle o’r enw Y Wern Uchaf, ar ochr Lôn Bost newydd Thomas Telford, a’i alw’n ‘Bethesda’. Codwyd y capel hwn i gymryd lle’r hen gapel yn Nhros-y-ffordd (bellach dan domennydd Chwarel y Penrhyn ers blynnyddoedd lawer).
 - Gŵr o’r enw Overen, brodor o Gaer Efrog, a oedd yn un o arolygwyr Thomas Telford ar y ffordd newydd (yr A5), yn prynu Chwarel y Coed ‘a elwid felly’ meddai Hugh Derfel Hughes, ‘am fod “Derw Coetmor” yn cyrraedd yma a chyfenwid hi gynt yn Gloddfa Llety yr Adar’. Overen a adeiladodd Tŷ Mawr ar Allt Cefnfaes a gelwid y cae o gwmpas y tŷ hwnnw yn Cae Ofran.
 - 16/06/1820: Geni’r cerddor David Roberts (Alawydd) yng Nghaerberllan, yn fab i Moses Roberts y Gof. Dechreuodd weithio yn y Chwarel pan oedd yn 10/11 oed. Cyhoeddodd Gramadeg Cerddoriaeth yn 1848, a ailargraffwyd, wedi’i ddiwygio, yn 1862. Enillodd wobrau am yr anthemau gorau yn Eisteddfod Gerddorol Bethesda 1851, 1852 ac 1853. Bu farw 26/05/1872 yn 52 oed, a chladdwyd ef ym Mynwent Glanogwen.
 - Griffith Williams (Gutyn Peris) yn sefydlu Ysgol Nos yng Nghapel y Carneddi i ddysgu Gramadeg.
- ## 1821
- 06/1821: Yn ôl Ernest Roberts: ‘Mabwysiadwyd yr enw “Bethesda” gyntaf ... yn llyfr Bedyddiadau Eglwys Bethesda ar y

clwstwr tai a oedd yn codi o gwmpas y capel. Erbyn 1822, roedd yr enw wedi ei dderbyn yn swyddogol i gofrestrau Eglwys y Plwyf (Llanllechid) lle cofnodir claddedigaeth “Elin Williams, Cae Garw, Bethesda”.

- Dyfodiad Robert Williams, Cae Aseth (Llanbedr, Dyffryn Conwy), i’r cylch. Sefydlodd Gymdeithas Ganu yng Nghapel y Carneddi i ddysgu canu, tonau, anthemau, a cherdd yn gyffredinol. Lladdwyd ef yn Chwarel y Penrhyn yn 1828 ac yntau’n 37 oed.

1822

- Ebrill 1822: Lewis Owen, cyn-filwr a chyn-ostler yn y ‘Bull’, Dinbych, yn ymosod ar ecseismon (Thomas Sturdy) rhwng Tyrpeg Pont-y-Tŵr a Bethesda, ei saethu a’i guro, a dwyn ei geffyl a 3/6d o arian. Dihangodd heb dalu’r doll wrth Dyrpeg Pont-y-Tŵr ond gwelwyd ef gan William Thomas, ceidwad y tyrpeg, ac aeth hwn, ynghyd â dynion eraill, ar ei ôl a’i arestio yn Nhafarn y Swan yn Ninbych. Bu achos yn Seisus Caernarfon ym Medi 1822 a chafodd Lewis Owen ei ddedfrydu i farwolaeth. Crogwyd ef yn gyhoeddus ar Forfa Seiont o flaen tyrfa o oddeutu 1500 o bobl.
- 22/11/1822: Geni Robert Morris Jones yng Nghaerberllan. Ymfudodd i Slatington, Pennsylvania, UDA, pan oedd yn 24 oed, ac agorodd chwarel lechi yno. Prynodd ragor o’r ‘Slate Belt’ maes o law ac ystyrir ef yn dad y diwydiant llechi yno a hefyd yn sefydlydd Bangor, Pennsylvania. Ymsefydlodd tua 1864 yn Portland, Northampton County, a sefydlu’r ‘Old Bangor Slate Co.’ Bu farw Ionawr 15, 1886, yn Philadelphia. Codwyd cofadail iddo ar lawnt Ysgol Uwchradd Bangor, P.A. a chofadail arall ger y Llyfrgell Gyhoeddus.

I’w barhau

Croesair Ebrill 2013

AR DRAWS

1. Rhif unigol; 1,2,3 ac ati (5)
4. Mewn hwn mae nerth diarhebol (5)
8. Wel ! Dwi’n drysu wrth wneud yr holl arian ‘ma (3)
9. 12½c nain a taid (6,5)
10. Aelod sy’n dilyn un o enwadau crefyddol Cymru. Amlycaf yn y de (7)
12. Yng Nghôr y Cewri a Gorsedd y Beirdd (5)
13. Gwyllo’n graff (6)
14. Dyma Llio yn feddw heb ei modrwy yn cael diod (6)
17. ‘Gwlad y menyg gwynion’. I hanner y wlad efallai (5)
19. Glynllifon, Faenol a Chastell Penrhyn (7)
21. Ymhen saith niwrnod (6,5)
23. A yw’n gwybod mai hogyn ei daid ydyw ? (3)
24. Mae’n chwarae’r offeryn a’i fol ar dân ! (5)
25. “Cwsg -----, cwsg yn glyd yn dy hudol grud; Cwsg heibio brad a llid, Cwsg er rhwysg dy fyd.” O sioe gerdd Gymraeg (5)

I LAWR

1. Pan fyddwch ag awydd angerddol am gael rhywbeth (5)
2. Dwi’n gwybod fod gan Dafydd Ifan un o’r rhain, yn ôl y gân werin (3)
3. Gwasga dy drwyn, mae’r ogla’n annioddefol ! (7)
4. “Hoff gennyf fy mwthyn -----, A weli’n y ceunant draw”. Eifion Wyn (6)
5. Heb nerth, na hawl, na dylanwad (5)
6. A neb ac I Ar Draws ar chwâl, er mor sanctaidd ydyw (9)
7. Herwr. Roedd llawer o rai cochion

- yng nghanolbarth Cymru er stalwm (7)
11. Fel hyn mae’r llyn sy’n llonydd (9)
 13. Un o swyddogion gêm beldroed neu rygbi (7)
 15. Mae athro da -- ----- dychymyg a brwdfrydedd ei ddisgyblion (2,5)
 16. Mae angen tylla go fawr ymhobman i’r gath wneud hyn yn llwyddiannus (6)
 18. Yr hyn a wneir i ferfa (5)
 20. Wedi blino cymaint, daw’n fuan i aros yn yr un lle heb symud (5)
 22. Llafn eira (3)

ATEBION CROESAIR MAWRTH 2013

AR DRAWS 1. Ceffyl; 4. Ac ati; 10. Mordaith; 11. Mieri; 12. Soni/ja; 13. Ailosod; 15. Elwa; 17. Safle; 19. Gabon; 22. Isod; 25. Pastynu; 27. Natur; 29. Nerthu; 30. Nodedig; 31. Mafon; 32. Burum.

I LAWR 2. Eirin; 3. Ymadael; 5. Camel; 6. Treisio; 7. Ymysg; 8. Athraw; 9. Tir Du; 14. Iago; 16. Lein; 18. Awstria; 20. Adnodau; 21. Epynt; 23. Sugno; 24. Arogl; 26. Ymuno; 28. Tad-cu.

Ymddiheuriadau diffuant i’r saith ffyddlon y methais eu henwi yn rhestr cynigion cywir mis Chwefror. Fy mlerwch i, a neb arall, oedd y cam. I wneud iawn â chi, dyma gyhoeddi’ch enwau yma : Ann Ifans, Penisarwaun; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gaynor Elis-Williams, Gwenno Evans, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dulcie Roberts, Tregarth.

Rwan at groesair mis Mawrth. Dyma gur pen arall i mi ! Dim ond un gwall a gafwyd, a hwnnw oedd ateb y cliw ‘Ac

1		2		3		4		5		6		7
										8		
9												
10		11						12				
13								14	15			
						16						
17				18		19						20
		21								22		
23												
		24						25				

yn y blaen, etc.’. Roedd ymhell dros hanner ohonoch wedi cynnig yr ateb ‘Ac eto’. Gan fod cymaint wedi rhoi’r ateb yna, bum yn meddwl ei dderbyn. Ond wedi dwys ystyried, chlywais i neb erioed yn dweud ‘ac eto’ am ‘etc’. ‘Ac ati’ glywaf i bob amser, ac er tegwch i’r gweddill a gynigiodd yr ateb hwnnw penderfynais, er gwell neu er gwaeth, wrthod ‘ac eto’. Ond peidied neb a digalonni; mae codi nyth cacwn yn beth da i’n cadw’n effro weithiau. Felly dyma enwau’r rhai a yrodd atebion cywir : Dulcie Roberts, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Parry, Rhiwlas; Ellen Whitehouse, Birmingham; Gwyl Owen, Bethesda. Yr un sy’n mynd a’r wobr y tro hwn yw Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli LL53 6YP. Longyfarchiadau i chi.

Atebion erbyn dydd Mercher, 1 Mai i ‘Croesair Ebrill’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mawrth aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon, yn bennaf i wneud trefniadau ar gyfer dewis ymgeisydd seneddol Arfon.

Yna, ganol y mis, aeth rhai i gynhadledd Plaid Lafur Cymru yn Llandudno, yn bennaf i holi a gwrando ar Carwyn Jones (Prif Weinidog Cymru) ac Ed Milliband (Arweinydd Plaid Lafur Prydain). Hefyd cafwyd cyfle i holi gweinidogion Llywodraeth Cymru, trafod cynigion, cymryd rhan mewn cyfarfod o Gymdeithas Cledwyn (Grŵp Cymraeg y Blaid Lafur) ac yn y blaen.

Ar ddiwedd y mis cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen gyda Gwynfor Edwards (Cynghorydd Sirol Llafur, Ward Deiniol). Yn ogystal â'r agenda arferol, gwnaed trefniadau i gynnal taith gerdded ym mis Ebrill. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn chwilio am ffyrdd i leihau'r galw am wasanaethau'r Cyngor a bod Cyngor Bethesda heb gynyddu'r praesept treth cyngor.

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Pentir

Yng Nghyfarfod Cyngor Cymuned Pentir a gynhaliwyd ar 14 Mawrth nodwyd yr angen i gael gwybodaeth lawn o'r llwybrau cyhoeddus yn yr ardal. Mae angen gwybod lle mae'r llwybrau ac a ydynt yn cael eu defnyddio bellach. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi Polisi newydd ar gyfer llwybrau a bydd swyddog o'r Cyngor yn trefnu archwiliad o bob llwybr cyhoeddus yn y man.

Nodwyd hefyd fod Mynwent Pentir yn prysur lenwi a bod angen gweithio allan yn fuan faint o le sydd ar ôl i feddau newydd, a phenderfynu pa bryd y bydd yn ofynnol defnyddio'r Fynwent Newydd yn unig.

Yn unol â phenderfyniad Cyngor Gwynedd i wneud caeau chwarae y sir yn rhai di-fwg, cytunwyd y dylid pwrcasu arwydd i gae chwarae Caerhun yn nodi na ellir ysymygu yno.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Mawrth 2013 yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Rhys M. Llwyd yn y gadair.

Estynwyd croeso i'r Heddwas Dale Cassidy a chafwyd trafodaeth fuddiol yn ymwneud â phroblemau parcio yn yr ardal. Byddir yn trafod ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Penderfynwyd cyfethol Mr. Huw Peredur Jones i sedd wag ar Ward Tregarth a dymunir yn dda iddo.

Nid yw'r Adran Briffyrdd mewn sefyllfa i ddarparu bin halen ychwanegol ar Allt Bryn Egwys.

Bu'r Cynghorydd Dafydd Owen yn trafod materion ynglŷn â llwybrau cyhoeddus gyda swyddogion o'r Cyngor Sir a chafwyd ar ddeall y bydd contractwyr yn gwneud gwelliannau i nifer o'r llwybrau pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Mae trefniadau ar y gweill i dacluso a pheintio rhagor o gysgodfannau bws.

Byddir yn dwyn sylw'r Cyngor Sir at dyllau sy'n gwaethygu ac yn datblygu i fod yn beryglus ar ffyrdd yr ardal.

Côr Meibion Dinas Bangor

Braf yw cyhoeddi fod Lowri Prys Roberts Williams o Frynrefail wedi cael ei phenodi yn Arweinydd Côr Meibion Dinas Bangor i olynu James Griffiths ar ôl ei ymddeoliad ar ddiwedd Ionawr wedi 25 mlynedd yn arwain y Côr.

Y mae aelodau'r Côr yn hynod falch o'r penodiad oherwydd bu Lowri yn gyfeilydd y Côr am bron iawn i 25 mlynedd. Felly braf yw edrych ymlaen at gyfnod newydd yn hanes y Côr o dan ei harweinyddiaeth. Cyfeilydd y Côr i olynu Lowri fydd Gwilym Lewis o Gaergybi sydd eisoes wedi bod yn gweithredu fel Is-arweinydd. Y mae Barry Wynne o Ffordd Islwyn, ac yntau yn aelod ffyddlon o'r Côr ers blyneddau, wedi cael ei benodi yn Is-arweinydd. Yn ogystal â hyn bydd y cyn-arweinydd hefyd wrth law i helpu allan mewn unrhyw ffordd pan fydd angen hynny. Y mae'r Côr yn hynod ffodus o gael tîm o gerddorion yn barod i weithredu ac i fwrw mlaen i sicrhau dyfodol i'r Côr sydd ers blyneddau bellach wedi cyfrannu cymaint i gerddoriaeth a mwynhad canu ym Mangor fel côr y ddinas. Dymunir pob llwyddiant i Lowri, Gwilym a Barry. Dyma gyfle gwych yn awr i ddarpar gantorion ddod ymlaen i lenwi rhengoedd y tenoriaid a'r baswyr.

Dewch i Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd unrhyw nos Fercher rhwng 7-30 a 9-30 o'r gloch.

Y Douglas Arms

* Llundiaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Plaid Cymru
Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 26 Mawrth dan lywyddiaeth y cadeirydd, Paul Rowlinson.

Croesawyd Huw Peredur Jones, cynghorydd newydd Plaid Cymru ar Gyngor Cymuned Llandygái i'r cyfarfod.

Adroddwyd yn ôl ar y sefyllfa barcio yn y Gerlan a'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Caban dan lywyddiaeth y Cynghorydd Dyfrig Jones. Dywedwyd y bu'n gyfarfod cadarnhaol a bod gwahanol syniadau i'w trafod.

Cytunodd pawb bod y Cyfarfod Blyneddol wedi bod yn llwyddiannus iawn, ynghyd â'r bore coffi y bore canlynol.

Yn ystod y tywydd garw ni fu trydan mewn llawer o gartrefi yn yr ardal a bu nifer o'r cynghorwyr mewn cyswllt gyda Scottish Power i geisio monitro'r sefyllfa. Diolchwyd unwaith eto i Meirion Williams o Gyngor Gwynedd am ei ddynwch yn sicrhau bod ein ffyrdd yn glir.

Bu'r Cynghorydd Dafydd Meurig yn helpu Grŵp Cymunedol Talybont gyda'u cais i sicrhau grant ar gyfer cae chwarae yn y pentref. Y Cyngor Cymuned yw perchnogion y tir ond bydd y criw gweithgar yma yn gyfrifol am gynnal a chadw.

Adroddwyd bod Partneriaeth Ogwen yn brysur iawn a bod cynlluniau cyffrous ar y gweill.

Bu'r Cynghorydd Rheinalt Puw yng nghyfarfod o'r Cyngor Cenedlaethol lle bu trafod ar y newidiadau sydd yn y Cyfansoddiad Newydd. Pleidleisiwyd y byddai swydd y Llywydd yn cael ei diddymu ac y bydd bellach Arweinydd a thim arweinyddol.

Mae trefniadau ar gyfer noson yng nghwmni Tammy Jones ar y gweill. Edrychwch am yr hysbyseb.



Rhes Flaen (o'r chwith): Mrs Jessi Owen, Tangadlas; Mrs Florrie Jones, 8 Gernant; Mrs Nell Jones, 4 Gernant; Mrs Dilys Hughes, 15 Gernant; Mrs Griffiths, 'Sir Fôn'; Desna Ashton, 10 Gernant; Mrs Mary Owen, 12 Gernant. Rhes Ôl : Mair Owen, 14 Gernant; Iola Jones, Abercaseg; Helen Owen, 25 Braichmelyn; Eirwen Roberts, 33 Braichmelyn; ??
Diolch i Mair Martin (Owen gynt) o Lanfairfechan am y llun.

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

www.owenswales.co.uk



YSGOL YRRU



07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

600723

Ffacs: 605068

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

**Ffoniwch
01248 601164**

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturss@googlemail.com

**Hysbysebwn
yn y Llais
600853**

"J.R."

SGAFFALDWYR

**Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda**

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

600633

(symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Marchnad Ogwen



Dyma Stondin ‘Tatws Bryn’ a’i pherchennog, Chris Jones

Yn Llanllechid mae fferm Chris – sef Bryn Hafod-y-Wern ac yno mae’n tyfu nifer helaeth o’r llysiau amrywiol sydd ar ei Stondin. Sefydlwyd y busnes yn ôl yn 1952 gyda Chris yn dilyn ôl troed ei ddiweddar dad, sef Ken Jones. Mae’r wybodaeth a’r cynghorion gwerthfawr a gafodd Chris gan ei dad yn sicr wedi cyfrannu at lwyddiant Tatws Bryn heddiw. Mae’r gwaith yn galed, o hau’r hadau a thrin y planhigion i farchnata’r cynnyrch. Mae Tatws Bryn yn cyflenwi llysiau o gwmpas yr ardal a thu hwnt. Felly os ydych eisiau llysiau wedi tyfu’n lleol gan hogyn lleol, Marchnad Ogwen amdani! Chris yw Cadeirydd Pwyllgor Marchnad Ogwen eleni ac mae’n weithgar iawn yn hyrwyddo llwyddiant y Farchnad.

Yn Llais Ogwan mis Mai, bydd un o’r stondinau crefft yn cael sylw. Bydd y Farchnad nesaf 11 Mai yn Lllys Dafydd

TAITH DRWY DDYFFRYN OGWEN

Trefnir taith drwy Ddyffryn Ogwen i weld mannau geni a chartrefi rhai o enwogion llên y fro, ddydd Sadwrn, Mai 4, 2013. Bydd y daith yn cychwyn y tu allan i Siop Spar, Bethesda am 2 o’r gloch yn brydlon ac yn para oddeutu dwy awr a hanner.

Bydd cyfle o weld lle ganed Ifor Bowen Griffith (y darlledwr a’r diddanwr), y Prifardd Caradog Prichard (awdur Un Nos Ola Leuad), Ernest Roberts (awdur Ar Lwybrau’r Gwynt), Benjamin Thomas (awdur ‘Moliannwn’), J. O. Williams (cydawdur Llyfr Mawr y Plant), a lle bu’r canlynol yn byw: Edward Tegla Davies (Gweinidog ac awdur), R. S. Hughes (Cyfansoddwr ac Organydd Capel Bethesda), Rhys J. Huws (sefydlydd Eisteddfod y Plant), William Griffith, Henbarc (awdur ‘Defaid William Morgan’), R. Williams Parry (Bardd yr Haf), W. J. Parry (awdur ac Ysgrifennydd cyntaf Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru), Jennie Thomas (cydawdur Llyfr Mawr y Plant).

Ceir cyfle, hefyd, i weld llu o nodweddion eraill a wna ein hardal yn un o’r llefydd hynotaf yng Nghymru – e.e. Stryd y Gynffon; Pont-tŵr a’r ‘Llyn bach diog’; Chwarel y Penrhyn; Y Ficerdy (lle bu mam Caradog Prichard yn smwddio i’r Canon); Y Rheinws; Y Gofgolofn (a’i hanes); Y Blw Bel; Capel Bethesda; a beddau enwogion yng Nghoetmor.

Yn ystod y daith, bydd cyfle i brynu Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen – y llyfryn sy’n cynnwys llun pob un o’r enwogion, eu hanes, llun eu man geni/cartref a llun y goflech a osodwyd ar yr eiddo. Mae’r llyfryn yn cynnwys 48 tudalen ac yn costio £3.

Archebwch eich lle cyn gynted ag y bo modd, gan anfon eich tâl am y daith, sef £3 y pen, at J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel, Caernarfon. LL55 3AA

GAIR O’R DOSBARTH

Gweinidog yn ymweld â dwy o ysgolion ‘rhagorol’ Gwynedd



Rhai o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn dangos i Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru sut maent yn defnyddio’r dechnoleg newydd yn eu gwersi

Mae Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi ymweld â dwy o ysgolion ym Methesda a dderbyniodd gydnabyddiaeth genedlaethol yn ddiweddar am safon yr addysg ragorol y maent yn ei ddarparu.

Bu’r Gweinidog yn ymweld ag Ysgol Abercaseg, sydd wedi cael ei ddyfarnu yn “arloesol” gan Estyn ac ysgol uwchradd Ysgol Dyffryn Ogwen sydd hefyd wedi derbyn canmoliaeth am ei safon “ragorol” gan y corff arolygiaeth.

Dywedodd y Gweinidog: “Dylid llongyfarch Ysgol Abercaseg ac Ysgol Dyffryn Ogwen am eu gwaith diflino i godi safonau a meithrin rhagoriaeth yn yr ystafell ddosbarth.

“Cafodd y dulliau dysgu dynamig mae Ysgol Abercaseg yn eu defnyddio i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion gryn argraff arna i, yn ogystal â’r ffordd mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn defnyddio technoleg ddigidol i ysbrydoli disgyblion.

“Dylai athrawon a disgyblion yr ysgolion fod yn hynod o falch o’r hyn maent wedi ei gyflawni ac rwyf yn falch iawn bod eu hymdrechion wedi derbyn cydnabyddiaeth gan Estyn.”

Yn ddiweddar, derbyniodd Ysgol Abercaseg safon “rhagorol” ym mhob un o’r deg o ddangosyddion ansawdd gan arolygiaeth ysgolion Estyn, a disgrifiwyd yr ysgol yn “arloesol” a “blaengar” gan yr arolygwyr. Yn ystod yr ymweliad cafodd Mr Andrews gyfle i weld yr amrywiaeth o ddulliau sy’n cael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Meddai Sioned Hywel Thomas, pennaeth Ysgol Abercaseg: “Fel ysgol, rydan ni wastad yn chwilio am ddulliau newydd ac arloesol i wella safonau fel y gallwn sicrhau bod y disgyblion yn elwa’n fawr o brofiadau dysgu. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cael cyfle i weld y dulliau hyn yn cael ei gweithredu yn ymarferol.”

Ysgol Dyffryn Ogwen oedd yr ysgol uwchradd gyntaf yng ngogledd Cymru i gael ei dyfarnu’n ‘rhagorol’ ddwywaith o dan drefniadau arolygu newydd Estyn. Yn ystod yr ymweliad cafodd Mr Andrews gyfle i weld rhan o wers Gymraeg blwyddyn 9.

Esboniodd pennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen, Alun Llwyd: “Fel ysgol rydan ni wrth ein boddau bod Estyn wedi amlygu sgiliau ieithyddol rhagorol ein disgyblion yn ei adroddiad, ac yn ystod ei ymweliad, roedd hi’n bleser dangos gwaith blaengar ac arloesol ein staff yn y maes pwysig hwn i’r Gweinidog.”



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Newydd agor ym Methesda ym mis Medi
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")
Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

**Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

**Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**

**Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd**

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Gallai eich hysbyseb

Chi

fod yma

**Cysylltwch â
Neville Hughes 600853**

**LONDIS
BETHESDA**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos**

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS**

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Ysgol Tregarth

Ymddeoliad

Mawr yw ein diolch i Mrs Laura Jones am ei gwasanaeth di-flinio i'r ysgol ers deng mlynedd yn bwydo disgyblion yr ysgol ar bob achlysur. Cafwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu a diolch i Mrs Jones ar ei diwrnod ola’ fel cogyddes yr ysgol. Ymddeoliad hapus a haeddianol i chwi Mrs Jones.



Ffarwelio

Diolch o galon i Miss Caryl Jones sydd wedi bod yn fyfyrwr hefo blwyddyn 1 ers mis Ionawr. Mae’r disgyblion wedi elwa o fod yn ei chwmni ac wedi mwynhau profiadau diddorol a bythgofiadwy. Hoffai’r ysgol ddymuno’n dda iddi yng ngweddill ei chynod yn y brifysgol, a dymuno’r gorau iddi yn ei gyrfa wedi hyn.

Addysg Gorfforol

Yn ystod tymor y Gwanwyn mae'r plant wedi mwynhau profiadau addysg gorfforol amrywiol iawn. Cawsom gwmni Mrs Freeman, mam Stanley, fu’n rhoi gwersi Yoga i blant Blwyddyn 4, 5 a 6 a diddorol oedd cael gwybod tipyn am darddiad a phwrpas y gweithgaredd. Yn ogystal bu myfyrwyr o Goleg Menai yn cynnal cyfres o wersi i wella ein sgiliau rygbi ac edrychwn ymlaen yn arw at y twrnament tag-rygbi i ysgolion ardal Dyffryn Ogwen yng Nghlwb Rygbi Bethesda ar ôl y gwyliau Pasg.

Plannu Coed

Gweithgaredd corfforol gwahanol iawn oedd yn disgwyl Blwyddyn 5 a 6 yng Nghlwb Rygbi Bethesda cyn y gwyliau - plannu coed yn hytrach na chwarae rygbi! Cawsom wahoddiad gan Barc Cenedlaethol Eryri i’w helpu i blannu coed brodorol ar lain o dir ar lannau’r Afon Ogwen. Ar ôl sgwrs gan staff y Parc am bwysigrwydd coed i gynnal bioamrywiaeth ein hamgylchedd a gwyrddroi newid hinsawdd bu’n rhaid i ni i gyd dorchu’n llewys a baeddu’n dwylo er mwyn defnyddio ‘matoc’ i blannu’r coed deri, bedw, helyg, cyll a chriafol, a hynny mewn rhesi (gweddol) syth!

Diwrnod Trwyn Coch

Cafwyd diwrnod llawn hwyl a sbri tra’n codi arian at yr elusen *Comic Relief*. Gweithiodd y Cyngor Ysgol yn ddygn iawn i drefnu dwy gystadleuaeth i’r disgyblion a stondin cacennau. Ennillodd Morgan Blwyddyn 2 a Belle y gystadleuath wisg ffansi tra enillodd Morgan Blwyddyn 4 a Haf y gystadleuaeth gwallt gwirion. Dysgodd bawb gan Y Trwyn Coch a chael lot fawr o hwyl yn y broses. Casglwyd £215 i’r elusen gwerth chweil. Dymunai’r Cyngor Ysgol ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Llwyddiant y parti Unsain

Cafodd y parti unsain 3ydd allan o 5 yn yr Eisteddfod Sir yn ddiweddar. Mae pawb yn yr ysgol yn hynod falch ohonynt. Tipyn o gamp yw cyrraedd y sir gan fod y safon mor uchel yn nalgylch Bangor/Ogwen. Da iawn parti Lucy!!

Tîm F1



Llongyfarchiadau mawr i’r Tîm F1 ar eu llwyddiant yn y gystadleuaeth F1 mewn ysgolion yn Venue Cymru. Fe gipwyd y wobr a tlws am y dylunwyr gorau. Diolch i Siemens a Krypton Clothing am noddi’r tim ac i Ffion Roberts am eu hyfforddi.

Baner Eco-sgolion

Llongyfarchiadau i’r ysgol am dderbyn ail faner Eco-sgolion. Canmolwyd yr ysgol am wreiddio cysyniadau eco yng nghrwrwiclwm ac ethos yr ysgol.

Ysgol Llangygái

Dathlu Diwrnod y Llyfr

Cafodd y disgyblion a’r staff gyfle i wisgo fel cymeriad allan o lyfr i ddathlu y diwrnod arbennig yma. Hefyd bu disgyblion yr adran Iau yn gymheiriaid darllen i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Roedd hi’n braf clywed trafodaethau rhwng gwahanol oeddrannau a llawer o fwynhad a chwerthin wrth i’r plant ieuengaf wrando yn astud. Diwrnod diddorol iawn.

Diwrnod Trwynau Coch

Roedd yr ysgol yn fôr i liw coch ar y diwrnod yma a chasglwyd £116 o bunnoedd tuag at achos haeddianol iawn.

Eisteddfod yr Urdd

Roeddem yn hynod o falch o lwyddiant Archie a Miles a Josh a Lily yng Nghystadleuaeth Deuawd Blwyddyn 6 ac iau. Roedd y pedwar yn cynrychioli yr ysgol yn Eisteddfod y Sir yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i bawb fu’n llwyddiannus ym maes Celf a Chrefft eleni a phob dymuniad da iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro ym Mis Mai.

Dathlu Diwrnod Cenedlaethol Tost

Bu Dosbarth Traed Bach ac Enfys yn dathlu y diwrnod yma drwy flasu gwahanol liw jam ar dost, torri darnau o dost yn hanneri a chwarteri ac hefyd trafod based yn llawn o fara pob siap a maint a lliw. Roedd eu boliau yn llawn yn mynd adref !!!

Dathlu Diwrnod Sant Padrig

Bu disgyblion Dosbarth Gwawr a Heulwen yn dathlu y diwrnod yma drwy amrywiol weithgareddau. Buont yn trafod teimladau Padrig ar wahanol adegau o’i fywyd drwy lunio llinell ffawd ac edrych a chreu gwahanol arliwiau o wyrdd.

Ymweliad PC Dewi Tomos

Bu Mr Tomos draw yn trafod Diogelwch ar y We gyda disgyblion yr Adran Iau a diogelwch yn y cartref gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Masnach Deg

Daeth y disgyblion at eu gilydd i feddwl am weithgareddau i godi ymwybyddiaeth pawb yn yr ysgol am bythefnos Masnach Deg. Cafwyd nifer o syniadau gan y plant- roedd pob dosbarth yn gyfrifol am weithgaredd er mwyn cyfrannu tuag at y portffolio Masnach Deg eleni. Ymysg y gweithgareddau, cynhaliwyd prynhawn i’r gymuned i ddathlu Dydd Gwyl Ddewi lle roedd te a choffi Masnach Deg yn cael ei wieni. Cafodd Dosbarth Gwawr a Heulwen gyfle i flasu Smoothies bananas, bu dosbarthiadau Enfys a Thraed Bach yn creu collage o’r logo, ac edrychodd yr Adran Iau ar amodau gweithio teg ac anheg a phwysigrwydd neges Masnach Deg .

Tag Rygbi

Mae hyfforddwyr o Goleg Menai wedi bod yn arwain sesiynnau Tag Rygbi gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn wythnosol. Mae’r disgyblion yn mwynhau ac yn elwa o arbennigedd yr oedolion.

Gwasanaeth y Pasg

Cafwyd Gwasanaeth arbennig iawn dan ofal disgyblion yr ysgol gyfan fore Iau cyn diwedd y tymor.Roedd yr eglwys yn orlawn a diolch i’r rhieni ac aelodau Eglwys Sant Tegai am eu cefnogaeth. Thema y gwasanaeth oedd Symbolau y Pasg a chafwyd darlleniadau o’r Beibl ynghyd a dramau byrion yn adrodd hanes yr Wythnos Sanctaidd. Hefyd cafwyd perfformiad clodwiw iawn gan gôr yr ysgol a daeth y gwasanaeth i ben gyda phob digybl yn canu You Raise Me Up ac roedd ambell ddeigryn yn y gynulleidfa.

Ymweliad Dosbarth Tirion

Bu disgyblion Dosbarth Tirion yng Nghastell Dolbadarn Llanberis sef un o gastelli Llywelyn Fawr yn ddiweddar i gloi thema y tymor – Oes y Tywysogion. Bu’r disgyblion yn creu mapiau llinol tra yn ymweld a’r castell a’r tir o’i amgylch.

Ymweliad Dosbarth Hedd



Aeth Dosbarth Hedd ar daith gerdded i fyny’r Wyddfa at Lyn Llydaw yng nghwmni Mr Hywyn Jones-Swyddog Parc Cenedlaethol Eryri. Pwrpas y daith oedd i edrych a gwerthfawrogi yr amgylchedd ac i ddysgu am rywiogaethau.Daeth y disgyblion adref wedi blino ond wedi cael amser da ac wedi dysgu llawer.

Ysgol Abercaseg

Lobscows, teisennau cri a cherdd dant



Bu i ddydd ein nawddsant gael ei ddathlu drwy gynnal cyngerdd ar Fawrth 1af. Daeth pawb i'r ysgol yn eu gwisgoedd Cymreig a'u crysau coch, gan fwynhau gwrando ar Mrs Owen yn chwarae casgliad o alawon Cymreig ar ei thelyn ac ar yr unawdwyr cerdd dant, canu a llefaru yn perfformio. Bu i Anti Marian ac Anti Eleri baratoi gwledd blasus o lobscows cig oen a theisennau cri a oedd yn ginio perffaith ar ddiwrnod o ddathlu traddodiadau Cymreig.

Diwrnod y Llyfr

Doli Glwt, Gruffalo, Mrs Wishi Washi a Jaci Soch. Roedd y rhain i gyd i'w gweld yn yr ysgol ar 'Ddiwrnod y Llyfr' wrth i'r plant wisgo i fyny fel eu hoff gymeriad o unrhyw lyfr neu stori. Cafwyd diwrnod difyr gyda holl weithgareddau'r dydd yn seiliedig ar straeon a chymeriadau 'Llyfr Mawr y Plant'. Yn sicr, bu i'r diwrnod danio dychymyg llawer i blentyn a chreu'r awch ynddynt i ddod i wybod mwy am anturiaethau Wil Cwac Cwac a'r hen Siôn Blewyn Coch.

Trwynau Coch a 'Onesies'!

Llund ysgol o 'onesies' a trwynau yn ymdebygu i domatos! Dyna'r olygfa a oedd yn wynebu staff Ysgol Abercaseg ar ddiwrnod *Comic Relief*. Mae'n debyg bod llawer un wedi cael sbario newid o'u gwisg nos i ddod i'r ysgol, gan ffafrio'r wisg newydd dros y wisg ysgol arferol. Roedd talu £1 o ddirwy yn fargen o ystyried yn hwyl a gafwyd ar y diwrnod. Casglwyd £95 i'r achos a diolch i bawb a gyfranodd.

Diffoddwyr Tân Dosbarth Llafar



Wel am fore cyffrous gafodd disgyblion dosbarth Llafar yn ddiweddar wrth ymweld â gorsaf dân Bangor. Roedd yna hen edrych ymlaen am gael teithio ar y bws a gweld "Sam Tân Go Iawn" a chafodd neb eu siomi. Bu i'r plant dreulio amser yn eistedd yn yr injan dân a gweld lle roedd yr holl offer a gwisgoedd y diffoddwyr yn cael eu cadw. I goroni'r cwbl, cafodd pawb gyfle i fod yn "Sam Tân" gan afael yn y bibell ddŵr a chwistrellu ddŵr ar gar a oedd ar dân. Diolch i Gwawr am drefnu'r cwbl ac i staff Gorsaf Dân Bangor am y croeso.

Diogelu Bywyd Gwyllt Afon Caseg

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd disgyblion blwyddyn 2 yn cydweithio â swyddogion o Asiantaeth yr Amgylchedd ar brosiect glanhau Afon Caseg. I lansio'r prosiect daeth Emyr Jones o'r asiantaeth draw i roi sgwrs ddifyr am yr afon ac am y bwyd gwyllt sy'n trigo ynddi ac o'i hamgylch. Bydd yn rhaid i'r

disgyblion rwan dorchu llewys gan fwrw ati i weithredu'r cynllun er mwyn diogelu bywyd gwyllt Afon Caseg.

Ymwelydd Pwysig Iawn!



Nid yn aml y bydd Gweinidog Addysg Cymru yn ymweld â Bethesda, ond dyna beth ddigwyddodd ar Fawrth 22ain. Roedd Leighton Andrews wedi gwneud cais i ymweld ag Ysgol Abercaseg o ganlyniad i'r arolwg Estyn llwyddiannus iawn. Bu iddo ef, a'r Cynghorydd Siân Gwenllïan, dreulio cyfnod ymhob ystafell ddosbarth, ac yn ôl y wên a oedd ar eu hwynebaw wrth adael, roeddynt wedi mwynhau'r ymweliad yn fawr ac wedi eu plesio'n arw gyda'r hyn a welsant.

Ysgol Llanllechid

Casgliad Gŵyl Ddewi

Roedd yr ysgol yn falch o gael cefnogi Gethin Jeffreys a Carwyn Evans, dau o hogia lleol, sydd am fentro cystadlu ym 'Marathon Llundain' eleni. Maent yn rhedeg er mwyn codi arian tuag at elusen yn ymwneud â 'Cystic Fibrosis', er côf am ein cyn-ddisgybl hoff ac annwyl, - Gavin Bolton. Braff oedd cael y cyfle i gyfrannu £150 i'r gronfa yn sgîl y casgliad a wnaethpwyd ar ddiwedd ein cyngerdd Gŵyl Ddewi.

Cinio Gŵyl Ddewi

Diolch i Mrs Macdonald a chriw y gegin am weinyddu cinio cig oen arbennig ar Ddydd Gŵyl Dewi – blasus tu hwnt!

Diddanu aelodau o Gymdeithas y Capeli

Daeth aelodau o Gymdeithas Capeli'r ofalaeth draw i Ysgol Llanllechid i ddathlu Gŵyl Ddewi eto eleni a diolch i'r Parchedig Geraint Hughes am ei eiriau caredig. Cafodd y gynulleidfa ei diddanu gan blant yr ysgol yn perfformio amrywiaeth o eitemau, - canu, llefaru, unawd offerynnol, *ensemble* lleisiol yn ogystal â sioe gan rai o blant Bl 2 yn seiliedig ar y cymeriad Madam Chips o Rachub. Cafwyd cyfle am banded, cacen a sgwrs ar ddiwedd y noson ac roedd nifer o'r gynulleidfa'n sôn mor braff oedd clywed plant yn adrodd hen benillion ac englynion; canu caneuon traddodiadol, a dysgu am eu hardal. Noson hwyliog iawn. Diolch i bawb a diolch i'r aelodau am y casgliad o £89 i'r ysgol.

Bingo Pasg

Roedd y Clwb Criced dan ei sang unwaith eto ar noson Bingo'r Pasg; noson a drefnwyd gan y Gymdeithas Rieni/Athrawon dan ofal Mrs Lowri Roberts a Mrs Iona Robertson. Roedd gwobrau o wyau siocled blasus i'w gweld ym mhobman a Mr Dilwyn Owen, unwaith eto oedd yn galw'r rhifau yn ei ffordd ddihafal ei hun! Gwych!

Eisteddfod Sir

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Neuadd PJ. Fe wnaeth pob unigolyn ei orau yn enw'r ysgol a hoffem ddiolch i'r rhieni am gefnogi ar ddiwrnod mor gyffrous! Roedd gweld y plant yn ymuno gyda gweddill plant Eryri yn Neuadd Powis i wylïo'r gem rygbi fawr (tra'n aros yn eiddgar i gael mynd ar y llwyfan) yn fythgofiadwy! Llongyfarchiadau i'r côr cerdd dant (ail), Thalia Liechstenstein (trydydd gyda'r soddgrwth), y gerddorfa dan arweiniad medrus Jane Parry (trydydd), Erin Griffiths (trydydd am lefaru dan 7 oed). Pob dymuniad da i Beca Nia (unawd chwythbrennau ac *ensemble* lleisiol), Aziliz Kervegant (unawd blwyddyn 5 a 6 ac *ensemble* lleisiol, ac fe gafodd Aziliz ail ar yr unawd cerdd dant dan 12oed) a Gwydion Rhys (*ensemble* lleisiol) yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro ym mis Mai.

Celf a Chrefft yr Urdd y Sir

Eisteddfod Symudol

Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp dawnsio disgo ar eu perfformiad yn yr Eisteddfod Symudol. Roedd eu hegri yn heintus a braff gweld y criw i gyd yn mwynhau. Ond ni fuasai hyn wedi bod yn bosib heb Miss Nicola a Miss Awen yn eu hyfforddi. Llongyfarchiadau gwresog!

Taith y Dosbarth Derbyn

Cafodd plant bach y Dosbarth Derbyn ddiwrnod anturus iawn yn ddiweddar wrth ymweld â Chastell Caernarfon a Beddgelert. 'Cestyll' yw thema'r tymor ac maent wedi eu cyfareddu wrth wrando ar Mrs Wilson yn

darllen stori Gelert! Diwrnod llawn bwrwlm; does ryfedd fod nifer ohonynt yn gysglyd iawn ar y ffordd adref yn y bws!

Taith Blwyddyn 2 llun RSPB

Cafodd disgyblion Bl 2 ddiwrnod bendigedig yn yr awyr agored yn RSPB, Conwy. Roedd cyffro mawr pan gafodd y plant gyfle i wneud gwahanol weithgareddau fel astudio cynefinoedd, adnabod adar, darganfod creaduriaid oedd yn byw yn y pyllau, chwarae gemau, dysgu am wahanol bryfed, yn ogystal â mynd am dro ar hyd y llwybrau bendigedig! Diolch i bawb am eu cymorth , yn enwedig Aran a Gwenno ein cyn-disgyblion, sydd ar brofiad gwaith yn yr ysgol.

Taith Bl 3 a 4

Bu dosbarthiadau Bl 3 a 4 yn ‘Techniquet’ yn Wrecsam. Roedd yn brofiad gwych. Cafwyd digonedd o amser i arbrofi, chwarae, holi, dysgu am bob agwedd o Wyddoniaeth, yn ogystal â chymryd rhan mewn amrywiol weithdai.

Noswaith o Ddawns

Rhaid llongyfarch y criw dawnsio disgo ar eu perfformiad grymus yn y Galeri, Caernarfon yn ystod y Noswaith o Ddawns. Diolch i Ms Awen a Ms Nicola am eu gofal ohonoch.

Gweithdy Cyfrfiadurol

Cafodd disgyblion Mr Stephen Jones weithdy prysur iawn wrth iddynt gydweithio gydag arlunydd o'r enw Ian Jackson. Mae Ian yn hen law ar ddefnyddio rhaglen 'Microsoft Paint' er mwyn paratoi'r darluniau ar gyfer ei lyfrau. Aeth y disgyblion ati'n hyderus i ddefnyddio'r rhaglen 'Paint' er mwyn creu cymeriadau hwyliog a chreadigol ar gyfer eu storïau. Cyflwynodd bl 4 eu campweithiau yn y neuadd i'r ysgol gyfan.

Diwrnod Trwynau Coch

Cafwyd p'nawn o hwyl yn y neuadd ar ddiwrnod y Trwynau Coch. Roedd pawb yn ddigon o ryfeddod yn eu gwisgoedd lliwgar. Cafwyd cyfle hefyd i ddysgu am blant bach ar gyfandir yr Affrig sydd heb ddŵr glân a'r problemau sy'n codi yn sgil hynny.

Plannu coed



Bu disgyblion blwyddyn 5 yn plannu coed ger y clwb rygbi ym Methesda. Diolch i Gyngor Cefn Gwlad am drefnu'r digwyddiad. Roedd y plantos yn edrych yn weithgar iawn yn eu welingtons a da iawn nhw am feddwl am eu hamgylchfyd. Cawsont y fraint yn ogystal o gael cyfarfod â Rupert Moon, sef cyn fewnwr Llanelli a Chymru.

Entrepreneuriaid y Dyfodol

Gwelwyd y Clwb Menter yn mynd o nerth i nerth gan lwyddo i wneud elw eto wrth blannu, tyfu, ail-botio ac yna gwerthu basgedi o flodau i'r cyhoedd. Da iawn chi. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld sut y byddwch yn buddsoddi'r £30 ar gyfer eich menter yn Nhymor yr Haf.

Masnach Deg

Daeth y disgyblion at eu gilydd i feddwl am weithgareddau i godi ymwybyddiaeth pawb yn yr ysgol am bythefnos Masnach Deg. Cafwyd nifer o syniadau gan y plant- roedd pob dosbarth yn gyfrifol am weithgaredd er mwyn cyfrannu tuag at y portffolio Masnach Deg eleni. Ymysg y gweithgareddau, cynhaliwyd prynhawn i'r gymuned i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi lle roedd te a choffi Masnach Deg yn cael ei weini. Cafodd Dosbarth Gwawr a Heulwen gyfle i flasu Smoothies bananas, bu dosbarthiadau Enfys a Thraed Bach yn creu collage o'r logo,ac edrychodd yr Adran Iau ar amodau gweithio teg ac anheg a phwysigrwydd neges Masnach Deg.

Ysgol Rhiwlas

Diolchiadau

Ffarwel a diolch o galon i Karen de Waert ac Angharad Thomas. Bu Karen hefo ni yn yr ysgol fel cymhorthydd sgiliau sylfaen am gyfnod. Diolch am ei hymroddiad a'i brwdfrydedd. Diolch hefyd i Angharad Thomas, myfyrwraig blwyddyn gyntaf a dreuliodd y ddau fis diwethaf yn y dosbarth Babanod. Mae'r plant wedi mwynhau cwmni'r ddwy yn yr ysgol a bydd bwlch ar eu hôl!

Arwerthiant ar fwrdd

Codwyd £150 at yr ysgol drwy gynnal arwerthiant ar fwrdd yn neuadd yr ysgol rhyw fore Sadwrn. Diolch i bawb am gefnogi ac yn enwedig i bwyllgor y Cyfeillion a fu mor brysur yn trefnu.

Eisteddfod Ddawns

Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn y gystadleuaeth Dawns Creadigol yng nghylch Bangor/Ogwen ac wedyn yn y Sir yn Neuadd Goffa Criccieth – roedd rhaid edmygu'r plant am eu hegni a'u hymroddiad gan fod y ddawns yn un llawn cyffro! Cafwyd ail yn y Sir ac rydym yn falch iawn o'r plant am eu gwaith called. Diolch hefyd i'r rhieni am eu brwdfrydedd tuag at y dawnsio a'u cefnogaeth parod fel cynulleidfafa!

Diwnod y llyfr



I ddathlu diwrnod rhyngwladol y llyfr, cafodd blant Ysgol Rhiwlas gyfle i wisgo i fyny fel cymeriad o'u hoff lyfr. Roedd pawb wrth eu bodd yn cael cyfnewid y gwisg ysgol arferol am ddillad dynion tân, tywysogesau, pêl droedwyr a phob math o wisgoedd eraill. Cafodd pawb daleb llyfr i fynd adref ac atgofion braf am ddiwrnod llawn hwyl!

Gŵyl Athletau

Aeth blynyddoedd 5 a 6 i Ganolfan Hamdden Arfon i gystadlu mewn cystadleuaeth athletau yn diweddar – cawsant rhedeg, neidio, cymeryd rhan mewn ras rwystr a ras gyfnewid a nifer o weithgareddau eraill. Colli bu eu hanes ond hitia befo roedd pawb yn hynod o falch o gael ffasiwn brofiad a phawb yn edrych ymlaen at flwyddyn nesaf yn barod!

Eisteddfod Sir

Cafodd y parti Unsain gyfle i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Da iawn chi plant am ganu mor dlws ar y llwyfan ac am y 4ydd wobr.

Noson o Ddawns

Waw! Am brofiad arbennig – cael perfformio mewn awyrgylch broffesiynol gyda goleuadau, cynulleidfafa, ardal gefn llwyfan, system sain a hyd yn oed ystafell goluro hefo teledu ynddi! Roedd yr adran Iau yn teimlo fel sêr o fri yn cael perfformio yn Y Galeri yng Nghaernarfon. Roedd pawb wedi blino'n lan y diwrnod wedyn (ond ddim digon i beidio dod i Glwb yr Urdd cofiwch chi!)

Diwrnod Genes for Jeans

Codwyd £28 ar gyfer elusen “Cystic Fibrosis” drwy wisgo Jins i'r ysgol yn lle'r arferol melyn a glas. Mae'r elusen yn cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o gyflyrau geneteg sy'n effeithio rhai plant.

Gwasanaeth Pasg

Daeth Andrew Settatree atom unwaith eto i rhoi gwasanaeth difyr am y Pasg. Cafodd Robert a Jenny gystadleuaeth bwyta ŵy Pasg o flaen yr ysgol – 20 eiliad gymerodd Robert – ddim digon cyflym i guro'r record byd o 8 eiliad ond yn ddigon cyflym i ni sylweddoli fod mwy o ystyr i'r Pasg na bwyta wyau siocled yn unig. Neges hynod o bwysig mewn gwasanaeth cofiadwy – diolch Mr Settatree!

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

BOREAU COFFI NEUADD OGWEN

HYSBYSIAD PWYSIG

Bydd y neuadd ar agor ar gyfer boreau coffi a gweithgareddau eraill ym misoedd Mai, Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2013.

Disgwylir i'r gwaith ar y Neuadd gychwyn ym mis Medi ac nid ym mis Mai fel y cyhoeddwyd o'r blaen.

NEUADD OGWEN, BETHESDA BOREAU COFFI



20 Ebrill: Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
27 Ebrill: Eglwys Sant Cedol, Pentir
04 Mai: Cymorth Cristnogol
11 Mai: RNLI
18 Mai: Caban Gerlan
25 Mai: Gorffwysfan

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Clwb Criced a Bowlio Bethesda
Noson yng Nghwmni

TAMMY JONES

7.30 Nos Wener, 17 Mai 2013

Tocynnau: £5.00 (gyda bwffé)
gan Neville 600853
a Mary 600274

Cynhelir Raffl tuag at
Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Trefnir y Noson gan
Gangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Ebrill 23 a 30
Mai 14 a 28
am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr



Moscow a St Petersburg. Rwsia. Medi 28 - 5 Hydref

Taith fendigedig i weld
rhyfeddodau y ddwy ddinas
hardd.

Fe wnaed y daith hon y llynedd
gyda 43 o deithwyr er budd Cŵn
Tywys i'r Deillion ac fe fu'n
llwyddiant mawr gyda pawb wedi
mwynhau

Pris y daith - **£1,600** yn cynnwys
costau bws i'r maes awyr, hedfan
ynghyd a brecwast a phryd nos.
Elw at Ambiwllans Awyr Cymru

Vancouver i Calgary. Canada. Medi 14 - 21

Taith wfreiddiol, o ddinas hardd
Vancouver ar y Rocky Mountain
Express i Whistler.

Bws i Kamloops a thrwy
ologfeydd rhyfeddol y Rockies i
Canmore a Calgary.

Pris y daith **£2,050** yn cynnwys
bws i'r maes awyr, hedfan ynghyd
a brecwast a phryd nos.
Elw at Mudiad Ysgolion
Meithrin.

Rhagwelir y bydd y teithiau uchod
yn llenwi'n gyflym, felly os oes
diddordeb ganddoch mewn
ymuno gyda un o'r teithiau ac
angen mwy o wybodaeth, yna
cysylltwch â ni ar
07771525690 neu 01286 830081
gyda'r nos .ebost
dafydd@gwasgdwyfor.demon.co.uk.

Cymanfa Annibynwyr
Dosbarth Bangor a Bethesda

Dydd Sul, 19 Mai 2013

yng
Nghapel Carmel Llanllechid

10.30 Cymanfa Ysgolion Sul
Arweinydd: Mr. Huw Edward Jones

5.30 Cymanfa Ganu
Arweinydd: Mrs. Rhian Roberts

Croeso cynnes i bawb

Apêl Eleanor Jones Cyngerdd Ysgol Glanaethwy (Côr Hŷn a Chôr Iau) yng Nghapel Jerusalem, Bethesda

Nos Sul 21 Ebrill
am 7.00 o'r gloch

Tocynnau £6.00
Plant a Phensiynwyr £4
Ar gael yn Siop Kathy
neu gan Linda ar 01248 601526
neu Ann 01248 601583

Marchnad Cynnyrch Lleol Ogwen



Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

Yn Llys Dafydd
Stryd Fawr, Bethesda

11 Mai

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen

Yn ôl Geraint Thomas yn ei lyfr ardderchog Cyfrinachau Llynnoedd Eryri:

‘Mae Llyn Ogwen yn un o’r lleoliadau prydferthaf yng Nghymru.’

Byddai’n anodd anghytuno â hyn, er y byddaf yn meddwl weithiau ein bod ni bobl leol yn euog o beidio a gwir werthfawrogi’r harddwch sydd ar ein ‘stepan drws’.

Heb os nac oni bai, Llyn Ogwan yw’r prif gyrchfan i bysgotwyr ar ddechrau’r tymor ac mae sawl rheswm dros hyn. I ddechrau, Llyn Ogwan yw’r isaf o holl llynnoedd y Gymdeithas gan orwedd 310m uwch lefel y môr yn gwahanu’r Carneddau a’r Glyderau. Golyga hyn, ynghyd â’r ffaith ei fod yn llyn bâs iawn (rhyw 10 troedfedd ar ei ddyfnaf) mai dŵr y llyn hwn yw’r llyn cyntaf i gynhesu ac felly’n amlach na dim, bydd y pysgod yma yn dechrau bwydo fymryn ynghynt na’u cefndryd mwy mynyddig sydd yn ymgartrefu yn Llyn Idwal, Ffynnon Lloer a Llyn Bochlwyd.

Rheswm arall pam fod Llyn Ogwan yn ddewis cyntaf i nifer o bysgotwyr ydi’r ffaith mai hwn yw’r unig llyn sydd yn cael ei stocio. Bum gwaith y tymor bydd stoc o frithyll seithliw yn cael eu rhoi yn y llyn a hynny, wrth gwrs, yn ychwanegol i’r brodorion naturiol sef y brithyll brown.

Y llynedd daliwyd sawl ‘sgodyn dros bedwar pwys.

I lawer, mae’r daith i Lyn Bochlwyd neu Ffynnon Lloer yn dipyn o ‘slog’ a dweud y lleiaf. Nid felly Llyn Ogwen. Gyda’r A5 yn glynu i un ochr o’r llyn hirgul saithdeg wyth acer hwn a llwybr cyhoeddus ar yr ochr arall, mae mynediad at y llyn yn hawdd. Ceir sawl maes parcio cyfleus ac mae gwasanaeth bysus rheolaidd o Fethesda.

Un fanatais amlwg sydd gan Llyn Ogwen dros y dyfroedd eraill yw’r tri cwch rwyfo sydd ar gael i’w llogi o’r cwt cwch. Mae hawl gan bob aelod llawn dros un-ar-bymtheg oed i logi un o’r cychod ac rydym eleni yn treialu trefn newydd ar gyfer llogi cychod sef:

- Ffonio neu anfon neges destun i Geraint Roberts ar 07879668860.
- Byddwch yn derbyn côd i agor bocs diogel (Key Safe) ger drws y cwt cwch.
- Bydd goriadau’r cwt cwch a’r cychod ar gael yn y bocs diogel.
- Y tu fewn i’r cwt cwch mae blwch postio ar gyfer y ffi llogi.
- Ar ôl pysgota, gadewch y goriadau yn y blwch diogel ar ôl cloi’r cwt cwch.

Cofiwch y caniateir sbinio yn ogystal â ‘sgota pluen o’r cychod ac os nad yw’r rhwyfo yn apelio, mae croeso i aelodau ddefnyddio’u injan drydan eu hunain os dymunant. Un pwynt pwysig ynglŷn â diogelwch i gloi, mae gwisgo siaced achub ar gychod y gymdeithas yn orfodol.

Pob lwc!

Gareth Evans

Newidiadau yn Amserlen S4C

Mi fydd newidiadau i amserlen S4C yn digwydd o Ddydd Llun, 22ain Ebrill ymlaen - gyda gwedd newydd sbon ar siâp yr arlwy nosweithiol.

Y prif newidiadau i’r amserlen, a gafodd ei gyhoeddi gan S4C ym mis Ionawr, yw y bydd prif raglen Newyddion y dydd yn symud i 9.00 y nos rhwng nos Lun a nos Wener.

Bydd y rhaglen ar ei newydd wedd - Newyddion 9 - yn cynnig gwasanaeth newyddion cynhwysfawr sy’n adrodd ar yr hyn sy’n bwysig i ni yng Nghymru - yn lleol, yn genedlaethol, a’r tu hwnt. BBC Cymru Wales sy’n darpa ru’r gwasanaeth i S4C a bydd gohebwyr y rhaglen yn dod â’r straeon diwedddara o bob cwr o Gymru bob nos.

Bydd y ddrama Rownd a Rownd yn symud i amser rheolaidd hwyrach bob nos Fawrth a nos Iau – i galon yr amserlen. Mae’r gyfres sydd newydd droi’n ddeunaw oed, yn cael ei chynhyrchu ym Mhorthaethwy gan gwmni Rondo.

Bydd y rhaglen gylchgrawn Heno yn pa rhau am 7.00 o’r gloch bob nos o nos Lun i nos Wener, ond bydd rhaglen estynedig awr o hyd bob nos Lun a nos Wener. Mae’r rhaglen yn cael ei chynhyrchu gan gwmni Tinopolis yn fyw o’u stiwdio yn Llanelli, gyda chyfraniadau byw o bob rhan o Gymru.

Hefyd, gyda hanner awr ychwanegol o Stwnsh bydd mwy fyth o raglenni gwych i bobl ifanc am 5.00 bob dydd Llun i ddydd Gwener.

Dywedodd Dafydd Rhys, Cyfarwyddwr Cynnwys S4C, "Mae’r newidiadau yma yn ymateb i ofynion ein gwylwyr ac yn rhoi eu hanghenion nhw yn gyntaf. Bydd symud Newyddion i slot hwyrach yn y nos yn creu conglaen newydd i wasanaeth newyddion S4C. Bydd yn wasanaeth cynhwysfawr, amserol fydd yn berthnasol i’r adeg honno o’r nos ac i gynulleidfa S4C fydd yn cynnwys newyddion Cymru a’r byd.

"Mae hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ni wrth drefnu amserlen y noson. Bydd symud Rownd a Rownd i slot hwyrach yn cyflwyno’r ddrama i gynulleidfa newydd, ac 'ry ni hefyd wedi gallu cynnig slot hirach i Heno, un o gonglfeini ein hamserlen, ar ddydd Llun a Gwener, gan roi rhagor o sylw i’n cymunedau a gweithgareddau ym mhob cwr o’r wlad."

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Newidiadau’r Gwanwyn

O 22 Ebrill bydd newidiadau i’n hamserlen



Stwnsh
5.00
Llun –
Gwener

Gyda hanner awr ychwanegol o Stwnsh bydd mwy fyth o raglenni gwych i bobl ifanc bob diwrnod ar S4C.



R a R
7.30
Mawrth
a Iau

Mae’r ddrama sebon boblogaidd, Rownd a Rownd yn symud i slot hwyrach yn yr amserlen yn ystod yr wythnos. Cyfle felly i’r holl deulu fwynhau helyntion diweddaraf trigolion y pentref.



Heno
7.00
Llun –
Gwener

Bydd rhaglen awr o Heno ddwywaith yr wythnos, ar nos Lun a nos Wener er mwyn dod a mwy o gymysgedd difyr a hanesion o bob cwr o Gymru i’r grŵn.



Newyddion
9
9.00
Llun –
Gwener

Mae golwg, ffurf ac amser newydd i Newyddion S4C. Bydd bwletinau cyson yn ystod y dydd a’r brif raglen am 9. Bydd Newyddion 9 yn wasanaeth cynhwysfawr sy’n adrodd y newyddion sy’n bwysig i ni yng Nghymru - yn lleol, yn genedlaethol, a’r tu hwnt.

Cofiwch ein hoffi ni ar Facebook neu’n dilyn ni ar Twitter er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ein rhaglenni, i weld clipiau rhagolwg a manylion am ddigwyddiadau.

facebook.com/s4c.co.uk
@S4C

Mae croeso i chi cysylltu â Gwifren Gwylwyr S4C i leisio eich barn am ein rhaglenni.

0870 600 4141
(ni ddylai galwad gostio mwy na 6c y funud o linell BT)
gwifren@s4c.co.uk